Crynodeb o Ymatebion

Helpu pobl i wireddu eu potensial llawn:

Gwella Gwasanaethau Cyflogi Pobl Anabl

Print Bras

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Cynnwys

Rhagair Gweinidogaethol.....3

Crynodeb.....5

Pennod Un – Sut aethom ati i ymgynghori 7

Pennod Dau – Y ddadl o blaid newid 13

Pennod Tri – Cynhorthwy integredig, hyblyg ar gyfer cwsmeriaid 23

Pennod Pedwar – Swyddogaeth yr Ymgynghorydd Gwaith i Bobl Anabl 59

Pennod Pump – Mynediad at Waith 69

Pennod Chwech – Materion eraill 81

Casgliad.....87

Atodiadau.....89

Atodiad A – Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd 89

Atodiad B – Strategaeth Comisiynu'r DWP – annog y farchnad 100

Rhagair Gweinidogaethol

Ar ôl derbyn fy mhenodi'n ddiweddar fel y Gweinidog dros Bobl Anabl, yr wyf yn falch i fedru cyflwyno'r crynodeb o ymatebion a dderbyniasom i'r ymgynghoriad *Helpu pobl i wireddu eu potensial llawn: Gwella Gwasanaethau Cyflogi Arbenigol Pobl Anabl*[1], a ddaeth i ben yn gynharach eleni.

Credwn fod y cynigion ymgynghori yn cynnig gwasanaeth a chynhorthwy mwy eglur ar gyfer pobl anabl, ac yr ydym yn sicr fod yn rhaid i'r raglen cyflogi arbenigol pobl anabl newydd a arfaethir gwrdd ag anghenion penodol y bobl anabl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur.

Derbyniasom dros 450 o ymatebion i'r cynigion ymgynghori, o amrediad eang o bobl a chyrff, yr oedd y mwyafrif helaeth iawn ohonynt yn bositif. Yng ngolau'r gefnogaeth gref hon, datganodd y Papur Gwyrdd diweddar *Neb yn cael eu hystyried yn anobeithiol: diwygio lles er mwyn gwobrwyo cyfrifoldeb* a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2008[2], ein bwriad i fynd ymlaen â'r gwaith o'i weithredu a'i gyflawni.

Byrdwn y cynigion diwygio yw gwneud ein gwasanaethau yn fwy hyblyg ac wedi'u personoli fwy, hynny yw, symud i ffwrdd o'r syniad 'un arddull yn ffitio pawb' a chyda mwy o bwyslais ar symud i

---

1 DWP. 2007. Ymgynghoriad cyhoeddus *Helpu pobl i wireddu eu potensial llawn: Gwella Gwasanaethau Cyflogi Arbenigol Pobl Anabl*. ISBN 978-1-84763-177-0.

2 Ymgynghoriad Papur Gwyrdd *Neb yn cael eu hystyried yn anobeithiol: diwygio lles er mwyn gwobrwyo cyfrifoldeb*. 2008, Y Llyfrfa. Gellir ei gyrchu ar-lein yn: www.dwp.gov.uk/noonewrittenoff – gweler Pennod Tri tudalennau 74-79.

mewn i gyflogaeth heb gynhorthwy, lle y bo'n addas. Credwn na ddylai neb gael eu gadael ar ôl a byddwn yn darparu cynhorthwy wedi'i bersonoli i bawb sydd ei angen, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle i fynd i mewn i ac aros mewn gwaith.

Gwyddom y gall agweddau ar y diwygiadau hyn ddwyn heriau yn eu sgîl, ond mae ein nodau aml mor heriol – cyfradd gyflogaeth o 80 y cant, a chyfle i bawb, gan gynnwys y rhai mwyaf anabl, ddod o hyd i a chadw swydd foddhaus. Ar gyfer rhai, nid yw'r cyfleoedd hyn erioed wedi bod o fewn gafael.

Gan gymryd i ystyriaeth yr angen am amser i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd ar fin dod, bwriadwn ddechrau'r rhaglen newydd yn 2010 a byddwn yn trafod trefniadau gyda chyfranddalwyr allweddol dros yr ychydig fisoedd nesaf. Mae'n bwysig ein bod yn cynnwys cymaint ohonoch ag y bo modd, ar lefelau lleol a chenedlaethol fel ei gilydd, yn gwaith o yrru'r rhaglen newydd yn ei blaen. Credwn y bydd y rhaglen newydd hon, ochr yn ochr â chynigion a osodwyd allan yn y Papur Gwyrdd yn gynharach eleni, yn helpu mwy o bobl anabl i gael gwaith ac i mewn i gyflogaeth heb gynhorthwy a thrwy hyn wireddu eu potensial llawn.

Jonathan Shaw
Gweinidog dros Bobl Anabl

Crynodeb

1. Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus *Helpu pobl i wireddu eu potensial llawn: Gwella Gwasanaethau Cyflogi Arbenigol Pobl Anabl* ar Ddydd Llun 3 Rhagfyr 2007 a daeth i ben ar Ddydd Llun 10 Mawrth 2008.

2. Gosododd allan ac ymofyn am farn ynghylch diwygiadau arfaethedig i:

   - dair rhaglen arbenigol genedlaethol (Cymru, Lloegr a'r Alban) ynghylch darparu cyflogaeth i bobl anabl (h.y. Paratoi at Waith, Cam at Waith a'r Cynllun Cyflwyno Swydd); a'r

   - dull y mae Ymgynghorwyr Gwaith i Bobl Anabl (DEAs) yng Nghanolfannau Byd Gwaith yn gweithio mewn perthynas â'r rhaglenni hyn.

3. Yn ogystal, bu inni ofyn sut medrem wella Mynediad at Waith ymhellach.

4. Cynigiodd yr ymgynghoriad nifer o gwestiynau er mwyn helpu ymatebwyr lunio a pharatoi eu hatebion. Mae'r crynodeb hwn yn rhoi braslun o'r prif bynciau a'r syniadau a amlygwyd fel ymateb i'r ymynghoriad. Yr oedd meysydd eraill yn bodoli lle dymunai cyfranddalwyr gynnig sylw ac adlewyrchir y rhain yn ogystal.

5. Derbyniasom dros 450 o ymatebion, yr oedd y mwyafrif llethol ohonynt yn gadarnhaol dros ben, yn arbennig parthed ein cynigion i roi rhaglen newydd yn lle ein rhaglenni cyflogi arbenigol pobl anabl cyfredol (hy Paratoi at Waith, Cam at Waith a'r Cynllun Cyflwyno Swydd). Atgyfnerthodd ymatebion ein cred fod Mynediad at Waith yn rhaglen boblogaeth ac effeithiol.

6. O ganlyniad i hyn, datganodd y Papur Gwyrdd *Neb yn cael eu hystyried yn anobeithiol: diwygio lles er mwyn gwobrwyo cyfrifoldeb* a gyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf 2008 ein bwriad i fynd ymlaen â'r cynigion diwygio a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Ar ben hyn, datganodd y Papur Gwyrdd ein bwriad i ddyblu'r gyllideb ar gyfer Mynediad at Waith erbyn 2013/2014, ynghyd â chynyddu'r gyllideb cyflogaeth â chynhorthwy ar gyfer y rhaglen newydd arfaethedig.

7. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau ein bod yn helpu'r bobl anabl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur i gael a chadw swydd, lle y bo'n addas, ac ar yr un pryd byddant o gymorth i yrru cynnydd yn ei flaen tuag at nifer o flaenoriaethau'r llywodraeth, gan gynnwys y Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus ar oedolion sydd mewn perygl o gael eu cau allan yn gymdeithasol[3].

[3] Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSAs) – gwybodaeth ar gael yn: www.hm-treasury.gov.uk

Pennod Un – Sut aethom ati i ymgynghori

1. Ymgynghorwyd â chyfranddalwyr gan ddefnyddio amrediad eang o fecanweithiau er mwyn caffael ystod eang o farnau.

Ymgynghoriad ffurfiol

2. Cychwynnodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus i *Helpu pobl i wireddu eu potensial llawn: Gwella Gwasanaethau Cyflogi Arbenigol Pobl Anabl* ar Ddydd Llun 3 Rhagfyr 2007 a daeth i ben ar Ddydd Llun 10 Mawrth 2008. Medrai pobl ymateb drwy'r post a thrwy gyfeiriad e-bost un pwrpas.

3. Trefnwyd fod y ddogfen ymgynghori ar gael mewn fformatau gwahanol ac ymddangosodd ar nifer o wefannau hawdd mynd atynt. Yn ogystal, bu erthyglau ysgrifenedig, yn fewnol o fewn y llywodraeth ac yn allanol, o gymorth i ddweud wrth pobl am yr ymgynghoriad, fel y bu'r gweithdai niferus, digwyddiadau, cyfarfodydd a thrafodaethau ynghylch yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori o 14 wythnos.

4. Rhoddwyd cyhoeddusrwyd i rif teleffon tirwifr a chyfeiriad e-bost ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac yr oeddent ar gael gydol y cyfnod ymgynghori ar gyfer pobl a oeddent yn chwilio am gopïau o'r ymgynghoriad ar bapur ac mewn fformatau amgen.

5. Derbyniasom ymatebion ffurfiol oddi wrth:

   - 122 o unigolion, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol;
   - 248 o sefydliadau, gan gynnwys undebau llafur, cyrff cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol, darparwyr a chyflogwyr; ac
   - 88 o staff DWP/Canolfan Byd Gwaith.

6. Dangosir rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad A.

Digwyddiadau, gweithdai a thrafodaethau ymgynghori

7. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar Ddydd Llun 3 Rhagfyr 2007 gan Y Gwir Anhrydeddus Anne McGuire AS, y Gweinidog dros Bobl Anabl, yn ystod ymweliad â Mitchell and Cooper, gwneuthurwyr rhyngwladol offer arlwyo yn Uckfield, Dwyrain Sussex.

8. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, rhoddodd Weinidogion gyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad a'r cynigion mewn digwyddiadau addas y buont yn bresennol ynddynt ac yn ystod ymweliadau a wnaethant.

9. Rhoddodd y Gweinidog dros Bobl Anabl yr araith gyweirnod yn ogystal mewn digwyddiad ymgynghori mawr cyhoeddus yn yr Alban, y cyntaf o bedwar o ddigwyddiadau o'r fath dan arweiniad y DWP, yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban, a fynychwyd gan dros 500 o bobl o ystod o gefndiroedd, gan gynnwys pobl anabl, cynrychiolwyr o sefydliadau anabledd, cyflogwyr, darparwyr gwasanaeth o'r sectorau preifat a gwirfoddol ac Ymgynghorwyr Gwaith i Bobl Anabl Canolfan Byd Gwaith.

10. Cynhaliwyd y pedwar digwyddiad ymgynghori cyhoeddus dan arweiniad y DWP yng:

    - Nghaeredin – yng Nghanolfan Gynhadledd Heriot Watt ym Mhrifysgol Caeredin ar 21 Ionawr 2008;
    - Llundain – yn Yr Oval ar 24 Ionawr 2008;
    - Manceinion – yn yr Amgueddfa Wyddoniaeth a Diwydiant ar 30 Ionawr 2008; a
    - Chaerdydd – yn y Future Inn ar 12 Chwefror 2008.

11. Yn ogystal, cynhaliwyd sawl digwyddiad arall, cyfarfodydd a gweithdai a fynychwyd gan swyddogion DWP o amgylch y wlad, lle rhoddwyd y cyfle i bobl eraill, y bu iddynt achub arno, i fod yn y gyfrannog yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys:

    - digwyddiad a arweiniwyd ar y cyd gan Adran Weithredol yr Alban a Chyngor Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA) yn Glasgow ar 4 Chwefror 2008, ar gyfer uwch reolwyr o fewn y sefydliadau hynny; a
    - digwyddiad ar y cyd ar gyfer y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Cyflogaeth â Chynhorthwy (BASE) ac undeb llafur Community ar gyfer eu haelodau ym Mhrifysgol Loughborough ar 21 Chwefror 2008. Rhoddodd y Gweinidog dros Bobl Anabl araith gyweirnod trwy gyswllt-fideo yn y digwyddiad hwn.

12. Hefyd, cynhaliodd swyddogion y DWP gyfarfodydd wyneb yn wyneb er mwyn trafod y cynigion diwygio cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori gydag:

- aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol Cyflogi Pobl Anabl (DEAC);
- nifer o Ymgynghorwyr Gwaith i Bobl Anabl Canolfan Byd Gwaith;
- y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA);
- Mencap;
- Scope;
- Mind;
- RNID;
- RNIB;
- RADAR; a
- Sefydliad Leonard Cheshire.

Ymgynghori ar-lein

13. Ein dymuniad oedd i gyrraedd y nifer fwyaf o bobl ag yr oedd modd a'i gwneud yn hawdd iddynt ymateb i'r ymgynghoriad ac felly gosodasom y ddogfen ymgynghori ar ein tudalen ymgynghori ni ein hunain ar wefan DWP o lle y medrid ei llwytho i lawr.

14. Yn ogystal, darparodd sefydliadau eraill gysylltau iddi o'u gwefannau hwy eu hunain.

Dosbarthu copïau ar bapur a fformatau amgen o'r ymgynghoriad

15. Trefnwyd fod y ddogfen ymgynghori ar gael yn ogystal mewn amrywiaeth o fformatau ar bapur ac ar ffurfiau eraill, a bu inni ddosbarthu oddeutu 2,500 i gyd.

Cyrraedd y bobl hynny sydd â Iaith Arwyddion Brydeinig fel iaith gyntaf

16. Yn ystod y cyfnod ymgynghori daeth yn glir fod rhai aelodau o'r gymuned fyddar, sydd â Iaith Arwyddion Brydeinig (BSL) fel mamiaith, yn teimlo eu bod yn cael eu cau allan o'r broses ymgynghori, oherwydd ni chafodd fersiwn BSL o'r ymgynghoriad ei chynhyrchu. Penderfynwyd i beidio â gwneud hyn ar ddechrau'r broses, oherwydd yn flaenorol, ni chafwyd fawr ddim galw am y fformat hwn ar gyfer ymgynghoriadau eraill gan y DWP.

17. Oblegid nad oedd digon o amser ar gael yn ystod y cyfnod ymgynghori i gynhyrchu fersiwn BSL, aeth swyddogion DWP allan i'r gymuned fyddar ar draws y wlad a darparu digwyddiadau/gweithdai wedi'u teilwra gan ddefnyddio cyfieithwyr BSL cymwys, yn arbennig ar gyfer y grŵp hwn o gwsmeriaid, gan sicrhau y medrent chwarae rhan gyflawn yn y broses o ymgynghori.

18. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau yn:

- Nottingham – yng Nghymdeithas y Byddar Nottingham ar 11 Chwefror 2008;
- Birmingham – yng Nghanolfan Ddiwylliannol y Byddar Birmingham ar 26 Chwefror 2008; a
- Newcastle – yng Nghanolfan y Byddar Newcastle ar 29 Chwefror 2008.

19. Yr ydym wedi gwrando ar bryderon hygyrchedd oddi wrth y grŵp hwn o gwsmeriaid ac yr ydym yn awr yn cymryd eu hanghenion i ystyriaeth wrth gynhyrchu cyhoeddiadau DWP yn y dyfodol. O ganlyniad, mae DVD BSL o'r Crynodeb o'r Papur Gwyrdd diweddar *Neb yn cael eu hystyried yn anobeithiol: diwygio lles er mwyn gwobrwyo cyfrifoldeb* a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2008 ar gael yn ogystal.

20. Mae cyswllt i'r fersiwn grynodeb o'r ddogfen hon yn BSL ar gael yn www.dwp.gov.uk/resourcecentre/deconsultation.asp ac fe'i cynhyrchwyd hefyd ar ffurf DVD BSL sydd ar gael o'r cyfeiriad ar glawr cefn y ddogfen hon.

Pennod Dau – Y ddadl o blaid newid

Cyflwyniad

1. Gosododd Pennod Dau o'r ddogfen ymgynghori *Helpu pobl i wireddu eu potensial llawn: Gwella Gwasanaethau Cyflogi Arbenigol Pobl Anabl* y rhesymau allan o blaid y newidiadau arfaethedig i'r dull yn ôl y pa un y medrai peth o'n cynhorthwy cyflogi arbenigol ar gyfer pobl anabl gael ei ddarparu yn y dyfodol.

2. Gan ddefnyddio'r cyfoeth o dystiolaeth o ddarpariaeth gwasnaethau, ymchwil annibynnol, siarad â phobl anabl a'u cynrychiolwyr, ac o ddadansoddiad gan y Swyddfa Archwilio Gwladol (NAO), gwyddom eisoes fod ein gwasanaethau cyflogi arbenigol presennol ar gyfer pobl anabl wedi helpu i weddnewid bywydau miloedd lawer o bobl anabl[4].

---

[4] Ffynonellau allweddol: Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol, (2005). *Cael a chadw swydd: cynhorthwy yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer pobl anabl*. Swyddfa Archwilio Gwladol, HC455 Sesiwn 2005-06, 13 Hydref 2005. Purvis, A. Lowrey, J., a Dobbs, L. 2006. *Astudiaethau achos gwerthuso Cam at Waith: Archwilio dyluniad, cyflawniad a pherfformiad y Rhaglen Cam at Waith*. Adroddiad DWP Rhif 348, CDS.

3. Fodd bynnag, bu inni sylweddoli yn ogystal fod rhychwant sylweddol yn bodoli ar gyfer gwella, a oedd yn cynnwys tystiolaeth o Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, NAO ac Uned Strategaeth y Prif Weinidog[5]. Ar ben hyn, gyda newidiadau pellgyrhaeddol yn cael eu cyflwyno i ddull yr Adran o brynu gwasanaethau, roedd hwn yn gyfle i wneud cynnydd yn ein nod ar y cyd o gyflawni cydraddoldeb yn y farchnad lafur ar gyfer pobl anabl.

Y rhaglenni cyfredol

4. Darparodd y ddogfen ymgynghori ddadansoddiad o'n rhaglenni cyflogi arbenigol pobl anabl a dangosodd nad ydynt bob amser yn canolbwyntio ar anghenion y cwsmeriaid unigol, nad ydynt bob amser o ansawdd da a'i bod yn bosibl nad ydynt ar gael yn agos i'r mannau lle mae pobl angen y gwasanaethau.

5. Ar hyn o bryd, gall ein rhaglen Paratoi at Waith fod yn rhy gaeth o safbwynt o gyfyngiadau ar beth y disgwylir i'n darparwyr ei gyflawni a'r graddfeydd amser byr yr ydym yn contractio gyda hwy i weithio gyda phob unigolyn. Medrai rhai pobl anabl, er enghraifft y rheiny gydag anawsterau dysgu canolig i ddifrifol, elwa o fynediad i wasanaethau sy'n cydnabod yr angen am raglen nad yw mor gaeth.

---

[5] Uned Strategaeth y Prif Weinidog (2005) *Gwella Cyfleoedd Bywyd Pobl Anabl*, Swyddfa'r Cabinet, Ionawr 2005.

6. Hefyd, mae gan Cam at Waith ddisgwyliad cryf y bydd cwsmeriaid sy'n dod i mewn i'r ddarpariaeth yn dechrau gwaith o fewn cyfnod o wyth wythnos. Gall y disgwyliad hyn fod yn groes i'r nod o helpu pobl sydd cryn bellter o'r farchnad lafur. Gwyddom yn awr fod llawer o'r cwsmeriaid sy'n dod i mewn i'r ddarpariaeth arbenigol hon angen mwy nag wyth wythnos o gynhorthwy cyn dod o hyd i waith.

7. Bu inni gynnig atal cwsmeriaid rhag bod dan anfantais o ganlyniad i'r fath agwedd ddiwyro. Os oes, er enghraifft, angen ychydig o wythnosau ychwanegol ar unigolyn er mwyn dod o hyd i swydd, dymunwn fod yn fwy hyblyg wrth gynnig y cymorth hwnnw. Credwn, felly, ei bod yn bwysig ein bod yn ymdrechu i greu mwy o hyblygrwydd er mwyn darparu ar gyfer hyn o fewn y ddarpariaeth yn y dyfodol.

8. Mae'n amlwg o'n gwerthusiadau o raglenni y gall Paratoi at Waith (naill ar fel asesiad neu wasanaeth mynd i mewn i waith) a Cham at Waith gael eu defnyddio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn helpu rhywun i gael a chadw cyflogaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn ddigon aml.

9. Lle mae cwsmer yn debygol o fod angen y ddau fath o gynhorthwy, cynigiasom y byddai'n fwy effeithiol petai hyn yn cael ei nodi'n gynnar, er mwyn medru bodloni eu hanghenion cynhorthwy fel rhan o un pecyn cydlynol. Oherwydd hyn bu inni gydnabod y rôl bwysig y mae Ymgynghorwyr Gwaith i Bobl Anabl o fewn Canolfan Byd Gwaith yn ei chwarae wrth ddatblygu pecyn cynhorthwy ar ddechrau'r broses, a buddion cyflwyno un rhaglen sy'n gallu nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl.

10. Nododd yr ymgynghoriad yn ogystal fod gennym ormod o gontractau bach a rhai sy'n perfformio'n wael. Felly, yn unol â'r newid i gontractau llai niferus, hwy a mwy o faint a amlinellwyd yn Strategaeth Comisiynu DWP, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2008[6], ac er mwyn cyd-fynd ag argymelliadau NAO, cynigiasom yn ogystal leihau nifer y contractau ar gyfer y ddarpariaeth hon.

11. Er bod ein darpariaeth Cam at Waith a Mynediad at Waith gyfredol yn gweddnewid bywydau miloedd o bobl trwy ddarparu cyflogaeth â chynhorthwy i'w helpu i ganfod a chadw gwaith y byddent fel arall yn ei golli, gwelsom fod angen i ni sicrhau fod pob un o'n cwsmeriaid anabl yn cael cyfleoedd i dderbyn cynhorthwy er mwyn gwireddu eu potensial llawn.

12. Mae galluogi mwy o'n cwsmeriaid cyflogaeth â chynhorthwy i gyrraedd sefyllfa lle gallant gadw'u swydd yn annibynnol o gynhorthwy allanol yn ffurfio un o argymelliadau allweddol yr adroddiad *Cyfleoedd Bywyd*, ac mae'n rhan ganolog o beth y credwn y dylai gwasanaeth cyflogaeth â chynhorthwy da ei ddarparu. Mae'n bwysig oherwydd:

    - dymunwn alluogi mwy o bob anabl i fyw bywydau annibynnol ac mae rhan annatod o hyn yn cynnwys eu helpu i aros yn y gwaith yn annibynnol; ac

    - yn y pen draw mae terfyn ar ein hadnoddau – am bob person sy'n parhau i dderbyn cynhorthwy nad ydynt ei angen, mae'n bosibl fod rhywun arall yn bodoli a fedrai elwa o'r cynhorthwy hwnnw ond ni all ei dderbyn.

---

[6] Gellir edrych ar Strategaeth Comisiynu DWP (Chwefror 2008) ar-lein yn: www.dwp.gov.uk/publications/dwp/2008/com-strategy/cs-rep-08.pdf

13. Cydnabu'r ymgynghoriad ei bod yn afrealistig, o safbwynt rhai o'n cwsmeriaid, i ddisgwyl iddynt i symud ymlaen i gyflogaeth 'annibynnol' heb gynhorthwy. Fodd bynnag, mae'n wir i ddweud ein bod yn disgwyl i'r cwsmeriaid hyn dderbyn cymorth iddynt fedru gwneud cymaint o gynnydd ag y bo modd. Medrai hyn gynnwys eu helpu i newid rôl o fewn eu cwmni, ymofyn am ddyrchafiad a/neu ddatblygu sgiliau newydd. Fodd bynnag, cydnabyddwn y bydd rhai pobl angen i ni ddarparu cynhorthwy addas dros dymor hir.

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 1 – A oes unrhyw bwyntiau o'r sail tystiolaeth yr ydych naill ai'n cytuno yn gryf neu yn anghytuno'n gryf â nhw?

Eich ateb:

Yn gryno, cafwyd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Teimlwyd bod diffyg dadansoddiad o gyflogaeth fesul grŵp amhariad a dylid fod wedi cynnwys mwy o drafodaeth ynghylch materion hunan-gyflogi a chadw swydd o fewn yr ymgynghoriad.

Yn benodol dywedasoch:

"Derbyniwn fod y ddadl o blaid newid yn un ddilys."
(*Cyngor Dosbarth Metropolitanaidd Dinas Bradford*)

"Mae RNID yn credu nad yw'r system gyfredol o ddarparu gwasanaethau cyflogi ar gyfer pobl anabl yn ddigon i gwrdd ag amrywiaeth yr angen a gyflwynir a bod angen ei diwygio."
(*RNID*)

parhad

"Ceir cytundeb ar raddfa eang â'r angen i sicrhau fod unrhyw raglen newydd yn llai argymhellol ac yn fwy hyblyg; yr ydym, yn arbennig, yn croesawu'r symudiad tuag at raddfeydd amser a fedrant ymateb i anghenion unigolion yn hytrach na'r cyfnodau gosodedig presennol."
(*Cyngor Dinas Newcastle*)

"Mae'r dystiolaeth, yn ein barn ni, o gymorth ac yn ddibynadwy; nid ydym yn gweld digon o bwyslais yn yr agenda diwygio lles ar gadw swyddi."
(*Ymgynghorwyr Anabledd Access Made Easy*)

"Mae ODI yn arbennig yn croesawu'r agwedd pob-anabledd sy'n amlwg ledled yr ymgynghoriad a'r cynlluniau diwygio… ond rhowch sylw haeddiannol i sut y gall gwasanaethau fod yn ddigon hyblyg i gael eu teilwra i ddarparu cynhorthwy i bobl sydd ag anableddau penodol."
(*Swyddfa dros Faterion Anabledd – ODI*)

"Mae'r 'Darganfyddiadau Gwerthuso Allweddol' ym Mlwch 5 (tudalen 24) i gyd yn lleoli'r unigolyn fel cwsmer neu ddefnyddiwr terfynol yn y system. Sonnir am gyflogwyr yn unig yn nhermau gwneud addasiadau ar gyfer gweithwyr anabl. Mewn gwirionedd, mae taith y cyflogwr yn cychwyn cyn hyn ac mae EFD yn credu fod yn rhaid i gyflogwyr hefyd gael eu lleoli fel cwsmeriaid y system sy'n helpu pobl i fynd yn ôl i'r gwaith."
(*Fforwm y Cyflogwyr ar Anabledd*)

"Mae'r diffyg cynllunio integredig gyda gwasnaethau iechyd a chymdeithasol, gyda chysylltu â chyflogwyr a chyda'r agenda sgiliau yn awgrymu fod y cynnydd a wneir yn dameidiog."
(*RNID*)

parhad

"Yr ydym ni yn cefnogi agwedd pob-anabledd tuag at raglenni cynhorthwy cyflogaeth yn unig i'r fath raddau lle y gall unigolyn dderbyn cynhorthwy sy'n benodol ar gyfer eu hanghenion hwy."
(*RNID*)

"Mae GMB yn pryderu y medrai'r DWP fod yn rhoi amcangyfrif rhy isel o'r anawsterau sydd ynghlwm wrth gaffael digon o swyddi cymwys yn y sector preifat."
(*undeb GMB*)

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno y dylai pobl anabl gael eu cyfeirio at ein darpariaeth cyflogi arbenigol pobl anabl yn unig lle y mae'n annhebygol y byddai ein rhaglenni eraill, fel y Bargeinion Newydd, yn effeithiol?

Eich ateb:

Yn gryno, derbyniwyd cefnogaeth gyffredinol i'r pwynt y dylai pobl anabl gael eu cyfeirio at ddarpariaeth cyflogi arbenigol pobl anabl yn unig lle y mae'n annhebygol y byddai rhaglenni eraill yn effeithiol.

Yr oedd ymatebwyr yn pryderu ynghylch pobl anabl yn cael eu neilltuo a'u trin yn 'wahanol', tra'n cydnabod na fyddai'n addas i rai gael eu rhoi yn y rhaglenni Bargeinion Newydd, roedd ymdeimlad y dylai gweithdrefn asesu gywir fodoli ac y dylai'r unigolyn fod â mewnbwn mewn penderfyniadau.

parhad

Yn benodol, dywedasoch:

"Dylai pobl anabl gael eu cyfeirio at ddarpariaeth cyflogi arbenigol pobl anabl – dylai'r fargen newydd fod yn gyfle i wneud cynnydd."
(*Cynulliad Cymru*)

"Yr wyf yn cytuno y dylai pobl anabl gael eu cyfeirio at y ddarpariaeth arbenigol yn unig lle y mae'n annhebygol y byddai rhaglenni eraill yn effeithiol."
(*Unigolyn*)

"Mae cytundeb egwyddor yn bodoli y dylid cyfeirio pobl at Wasanaethau Cyflogi Arbenigol Pobl Anabl yn unig lle mae rhaglenni eraill yn annhebygol o fod yn effeithiol; dylai'r dull hwn o fynd ati sicrhau fod adnoddau yn cael eu cyfeirio yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon."
(*Cyngor Dinas Newcastle*)

"Medrai cyfeirio pobl at ddarpariaeth cyflogi arbenigol pobl anabl fod o fantais i'r unigolyn, fodd bynnag dylai'r unigolyn hwnnw barhau i fod â'r dewis. Gallai rhai unigolion deimlo y byddent, trwy dderbyn gwasanaethau arbenigol yn cael eu difrïo a gallai hyn fod yn niweidiol i'w gallu i gaffael gwaith."
(*Undeb Cyflogaeth â Chynhorthwy yr Alban – SUSE*)

"Ni ddylid ystyried Cam at Waith fel y dewis olaf, dylai darparwyr a chwsmeriaid edrych arno fel opsiwn, dewis, a dylai cyfeiriadau fod yn benderfyniad ar y cyd, wedi'i wneud gan y sawl sydd â'r anabledd a'r Ymgynghorydd Arbenigol Gwasanaethau Cyflogi Pobl Anabl."
(*Community*)

"Dylai fod yn dull cydlynol, di-fwlch o ymdrin â'r pynciau fel bod rhywun sydd ag anabledd yn gallu defnyddio'r gwasanaeth o unrhyw fan cychwyn."
(*Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu*)

Sut mae'r Llywodraeth yn dwyn hyn yn ei flaen

14. Ar sail y dystiolaeth a drafodwyd eisoes ac yn cymryd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i ystyriaeth, datganodd y Papur Gwyrdd diweddar *Neb yn cael eu hystyried yn anobeithiol: diwygio lles er mwyn gwobrwyo cyfrifoldeb* ein bod yn mynd i wthio'r cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad yn eu blaen. Byddwn yn ehangu ein cyllideb cyflogaeth â chynhorthwy er mwyn helpu i gyflwyno'ryasanaeth newydd, a byddwn yn dyblu y gyllideb Mynediad at Waith, a fydd yn ein galluogi i helpu mwy o bobl anabl gael a chadw swydd.

Pennod Tri – Cynhorthwy, integredig, hyblyg ar gyfer cwsmeriaid

Cyflwyniad

1. Mae'r Bennod hon yn gosod allan beth a gynigiwyd gan yr ymgynghoriad yn nhermau rhaglen newydd a sut yr ydym yn bwriadu gyrru pethau yn eu blaen.

2. Bu inni gynnig cael gwared ar y rhaglenni Paratoi at Waith, Cam at Waith a'r Cynllun Cyflwyno Swydd presennol trwy gyfuno'r ddarpariaeth hon yn un rhaglen integredig gyda thair swyddogaeth gynhorthwy glir, gan gynnig pecyn cynhorthwy mwy integredig a ellir ei deilwra'n haws er mwyn cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid.

3. Byddai'r dull hwn o fynd ati yn sicrhau fod:

   - y lefelau uchel o wybodaeth arbenigol ac ymroddiad ar arddangosir yn fynych gan ein staff Canolfan Byd Gwaith a'r darparwyr allanol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn medru cael eu ffocysu ar gwrdd ag anghenion cwsmeriaid unigol yn hytrach na dod o hyd i'r ffordd drwy'r system gyfredol; a'n

   - bod yn cynyddu'r nifer, y rhychwant ac ansawdd y swyddi sydd ar gael a thrwy hyn yn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl anabl, a gwella gallu cyflogwyr i ddefnyddio cyfran sylweddol o'r llafurlu a gaiff ei hanwybyddu'n aml.

Egwyddorion ar gyfer y rhaglen newydd

4. Y prif egwyddorion ar gyfer y rhaglen newydd fydd i:

   - wella profiad y cwsmer a medru darparu gwasanaeth wedi'i bersonoli'n well sy'n helpu cwsmeriaid i symud i mewn i, ac yna gwneud cynnydd mewn, gwaith; a
   - sicrhau fod y cwsmeriaid cywir yn gallu cael mynediad i'r rhaglen newydd.

5. Er mwyn gwneud hyn bwriadwn:

   - sicrhau y neilltuir cynhorthwy ar gyfer y bobl anabl hynny sy'n annhebygol o dderbyn digon o gynhorthwy o'n gwasanaethau cyflogi ehangach, e.e. y rhaglen Bargen Newydd Hyblyg neu Llwybrau at Waith;
   - cyfuno'r rhaglenni Paratoi at Waith, Cam at Waith a'r Cynllun Cyflwyno Swydd cyfredol yn un rhaglen modwlar newydd er mwyn i gwsmeriaid fedru derbyn y cynhorthwy cywir;
   - sicrhau fod y gwasanaeth a ddarparir yn gallu rhoi cynhorthwy sydd wedi'i deilwra i anghenion pob cwsmer unigol a, thrwy gydol yr amser bydd cwsmer yn ei dreulio ar y rhaglen, bod y cynhorthwy:
     - wedi'i ffocysu'n gyson ar alluogi'r unigolyn i symud ymlaen ac allan o'r rhaglen;
     - yn cael ei newid fel bod amgylchiadau'r unigolyn yn newid;
     - yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan gwsmeriaid, darparwr y gwasanaeth a'r cyflogwr; ac

– yn ddarostyngedig, o'r cychwyn, i gytundeb ar y sail y caiff y cynhorthwy ei adolygu'n rheolaidd a'i fod yn debygol o gael ei leihau dros amser – bydd y raddfa amser ar gyfer hyn yn dibynnu, i raddau helaeth, ar y cynnydd bydd yn cwsmer yn ei wneud yn y eu gweithle;

- cydnabod bydd y rhaglen yn parhau i fod ar gael a gyfer unigolion sydd ag anghenion cynhorthwy dros dymor hwy. Fodd bynnag, caiff yr anghenion hyn yn osgytal eu hadolygu yn rheolaidd a newidir y cynhorthwy – ei leihau neu ei gynyddu – pan fydd hynny'n addas;

- sicrhau fod gan yr holl gynhorthwy a ddarparir ar gyfer unigolion ffocws clir ar alluogi'r unigolyn hwnnw i wneud cynnydd tuag at gyflogaeth heb gynhorthwy;

- gwella'r cydberthnasau rhwng y ddarpariaeth hon sydd wedi'i ffocysu ar gyflogaeth a sefydliadau eraill sy'n darparu cynhorhwy i gwsmeriaid sydd â rhwystrau cymhleth rhyngddynt â chyflogaeth, e.e. gofal cymdeithasol, Ymddiriedolaethau GIG a sefydliadau addysgol; a

- gweithio gyda chyflogwyr er mwyn galluogi mwy o bobl anabl gyda rhwystrau cymhleth i fynd i mewn i a gwneud cynnydd mewn gwaith.

6. Fel gyda Cam at Waith, bydd y rhaglen newydd ar gael i gwsmeriaid anabl ni waeth pa fudd-dâl y maent yn ei hawlio.

7. Cydnabyddwn yn ogystal:

- bod angen i ni fod yn glir ynghylch rôl busnesau cynorthwyedig chynhorthwy o fewn un rhaglen;
- y medrai'r newidiadau gael effaith ar gwsmeriaid presennol Cam at Waith sydd naill ai'n gweithio o fewn busnesau cynorthwyedig neu gyda chyflogwyr eraill. Byddwn yn sefydlu ac yn cyfathrebu trefniadau trosiannol addas er mwyn sicrhau y gall yr unigolion hyn barhau i dderbyn y cynhorthwy sydd arnynt ei angen er mwyn cynnal eu cyflogaeth a, lle y bo'n addas, symud ymlaen i mewn i gyflogaeth heb gynhorthwy.

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 3 – A oes pwyntiau o'n hargymelliad cyffredinol i ddisodli'r Cynllun Cyflwyno Swydd (JIS), Paratoi at Waith a Cam at Waith yr ydych naill ai'n cytuno yn gryf neu'n anghytuno yn gryf â nhw?

Eich ateb:

Yn gryno, cafwyd cefnogaeth gref yn gyffredinol o'r cynnig i greu un rhaglen, gydag ychydig iawn o anghytuno, ar yr amod fod yn rhaid i unrhyw raglen newydd fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer anghenion cwsmeriaid unigol.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn hapus y byddai'r Cynllun Cyflwyno Swydd (JIS) yn diflannu. Cynigiwyd sylwadau fod y cynllun yn fiwrocrataidd ac mewn rhai achosion yn beth chwithig i orfod cynnig i gyflogwyr potensial. Dyrnaid o ymatebwyr yn unig a deimlodd ei fod yn arf defnyddiol i'w ddefnyddio gyda chyflogwyr er mwyn eu hannog i gyflogi pobl anabl.

parhad

Yn benodol, dywedasoch:

"Bydd un rhaglen yn cefnogi gwneud cynnydd ac yn hwyluso dull o fynd ati sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer."
(*Cynulliad Cymru*)

"Mae RBLI yn credu y dylai'r rhaglen newydd osod mwy o ffocws ar helpu cwsmeriaid i symud ymlaen ac oddi ar y rhaglen, ar yr amod y byddai'r cwsmer unigol ar eu hennill, ac nad yw'n anfanteisio'r darparwr yn nhermau cynnal y rhaglen."
(*Diwydiannau'r Lleng Brydeinig Frenhinol – RBLI*)

"Mae'r aelodau'n cytuno'n gyffredinol y byddai'r cynnig i gyfuno'r tair rhaglen yn un yn fuddiol i gwsmeriaid ac y bydd yn cynnig cysondeb ac eglurder ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael."
(*Undeb Cyflogaeth â Chynhorthwy'r Alban – SUSE*)

"Yr wyf yn cytuno'n gryf gyda'r cysyniad o un rhaglen, petai ond oherwydd taw natur dameidiog y patrwm cyfredol sydd wedi bod y fath fethiant o safbwynt fy mab."
(*Unigolyn*)

"Credwn y byddai cyflwyno un rhaglen yn cynrychioli dull gwell o ddefnyddio buddsoddiad cyhoeddus."
(*RNID*)

"Mae cyflogwyr mawr a bach yn cael eu drysu gan yr ystod o gynlluniau a ddarparir yn genedlaethol ac yn lleol, ac mae EFD yn croesawu ymdrech y DWP i gysylltu gwasanaethau a phartneriaethau a ddarparir yn lleol â rhaglenni cenedlaethol."
(*Fforwm y Cyflogwyr ar Anabledd*)

parhad

"Yr ydym wedi sylwi fod gwasanaethau ar hyn o bryd yn rhy wahanedig ac yn orgymhleth…Cytunwn y dylai un rhaglen mwy eglur, mwy hyblyg fodoli."
(*Pwyllgor Ymgynghorol Lles Cymdeithasol – SSAC*)

"Cytunwn â'r cynnig hwn a chroesawn y cynnydd mewn hyblygrwydd a'r potensial ar gyfer teilwra cynhorthwy i anghenion unigol. Cytunwn yn ogystal â'r ffocws ar y rheiny sydd angen y cynhorthwy mwyaf."
(*Mind*)

"Mae Scope yn cytuno â datblygu un rhaglen, ar yr amod fod y rhaglen hon yn hyblyg ac nad yw'n mabwysiadu dull un arddull yn ffitio pawb o fynd ati."
(*Scope*)

"Byddai'n fwy gwerthfawr petai arian JIS yn cael ei wario ar gyflogi cyfieithwyr mewn digwyddiadau profiad gwaith."
(*Dirprwyon Digwyddiad Ymgynghori – Canolfan y Byddar Birmingham*)

"Cytunwn y dylid ystyried defnyddio cymhorthdal cyflogwr tymor byr yn unig lle mae hynny wedi'i gysylltu ag addasiad uniongyrchol ac ynghlwm wrth gynhorthwy 'help llaw', mwy ymarferol. Oherwydd hyn, byddai'n rhan bwysig o rôl arfaethedig pob darparwr i helpu cyflogwyr rhoi addasiadau ar waith a chytuno ar lefel addas o gynhorthwy sydd wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn, eu cyflogwr a'r amgylchfyd gwaith."
(*Cynghrair Anabledd yr Undebau Llafur*)

Sut mae'r Llywodraeth yn dwyn hyn yn ei flaen

8. Yng ngolau'r ymateb calonogol yr ydym wedi'i dderbyn, bwriadwn gyflwyno'r un rhaglen newydd a fydd yn disodli'r rhaglenni Paratoi at Waith, Cam at Waith a'r Cynllun Cyflwyno Swydd o Hydref 2010, fel a ddatganwyd yn y Papur Gwyrdd *Neb yn cael eu hystyried yn anobeithiol: diwygio lles er mwyn gwobrwyo cyfrifoldeb* (Gorffennaf 2008).

9. Bydd y rhaglen newydd yn:

- sicrhau fod cwsmeriaid yn derbyn y lefel gywir o gynhorthwy a bod y cynhorthwy yn cael ei adolygu yn rheolaidd;
- cwrdd ag anghenion cwsmeriaid anabl yn well trwy ddarparu cynhorthwy wedi'i deilwra er mwyn iddynt baratoi ar gyfer, cychwyn a chadw swydd daledig;
- darparu cynhorthwy i'n cwsmeriaid fyw mewn dull mwy annibynnol;
- gwella'r cynhorthwy fel y gall ein cwsmeriaid wireddu eu potensial cyflogaeth llawn; ac
- annog a galluogi ein cwsmeriaid anabl yn well er mwyn iddynt symud tuag at, a lle gall cwsmer wneud hyn, i mewn i gyflogaeth heb gynhorthwy. Cydnabyddwn y bydd rhai cwsmeriaid yn parhau i fod angen cynhorthwy tymor hwy.

Y dull modwlaidd o fynd ati

10. Cynigiodd yr ymgynghoriad ddull modwlaidd o fynd ati ar gyfer y rhaglen newydd. Bwriedir fod y dull hwn yn helpu darparwyr gwasanaeth a chwsmeriaid i sicrhau fod y lefel a'r math cywir o gynhorthwy yn cael ei ddarparu gydol cyfnod unigolyn ar y rhaglen.

11. Yn gryno, mae'r modwlau fel a ganlyn:

    - **Modiwl 1** – Mynd i mewn i Waith. Bydd y modiwl hwn yn rhoi cynhorthwy dwys i gwsmeriaid i'w helpu i symud i mewn i gyflogaeth.

    - **Modiwl 2** – Cyflogaeth â Chynhorthwy Dros Dro. Modiwl ag iddo derfyn amser yw hwn sy'n cydnabod y bydd angen lefel gymharol uchel o gynhorthwy pan fyddant yn cychwyn swydd am y tro cyntaf, ond dylai'r disgwyliad bob amser fod y bydd y cynhorthwy hwn, gyda chytundeb rhwng yr unigolyn, eu cyflogwr a darparwr y gwasanaeth, yn cael ei leihau a'i ddirwyn i ben dros gyfnod o amser a gytunwyd.

    - **Modiwl 3** – Cynhorthwy Tymor Hwy. Mae'r modiwl hwn yn cydnabod y bydd angen cynhorthwy dros dymor hwy ar rai cwsmeriaid, o bosib yn para gydol eu oes waith, er mwyn eu galluogi i aros mewn gwaith. Fodd bynnag, o'r cychwyn a chydol eu hamser ar y rhaglen, dylid annog pob cwsmer i symud tuag at gyflogaeth heb gynhorthwy. Ar gyfer rhai, gall hyn gymryd nifer o flynyddoedd a bod yn ddibynnol ar y swydd gywir yn dyfod yn wag.

12. Yn ogystal â'r modiwlau, cydnabyddwn y gall fod angen i rai cwsmeriaid anabl – oherwydd eu hanabledd arbennig neu cyflwr cyfnewidiol, neu o ganlyniad i newid i rôl eu swydd – fynd yn ôl i'r rhaglen arbenigol newydd wedi iddynt symud ymlaen i waith heb gynhorthwy. Dymunwn alluogi pobl i wireddu eu potensial trwy hwyluso dychwelyd er mwyn derbyn cynhorthwy os ydynt yn profi anawsterau a byddwn yn trafod sut gallai'r broses hon weithio yn ystod cyfres o ddigwyddiadau gyda chwsmeriaid, cyflogwyr, darparwyr a chyrff cynrychioliadol dros yr ychydig fisoedd nesaf.

13. Yr ydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd darparu cynhorthwy er mwyn i bobl sy'n dyfod yn anabl fedru cadw eu swydd, fel eu bod hwy a'u cyflogwr yn medru cael gafael ar gyngor a chynhorthwy.

14. Ar ben hyn, mae'r dewis i fod yn hunan-gyflogedig yn opsiwn amgen realistaidd ar gyfer llawer o bobl anabl yn hytrach na gweithio i rywun arall. Ein bwriad yw i chwilio am ddulliau yn ôl y pa rai y gall y gwasanaethau a gynigiwn ddarparu cynhorthwy ar gyfer pobl anabl hunan-gyflogedig yn ogystal.

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 4 – Ar gyfer elfen Mynd i mewn i Waith y rhaglen newydd arfaethedig – sut medrem sicrhau orau fod ein darparwyr yn canolbwyntio eu hymdrechion ar eu cwsmeriaid i gyd ac nid dim ond ar y rheiny sydd fwyaf tebygol o gael swydd?

Cwestiwn 5 – Ar gyfer yr elfen Cyflogaeth â Chynorthwy Dros Dro o'r rhaglen newydd arfaethedig – a yw'n iawn i ni gyflwyno mwy o ffocws ar helpu pobl i symud oddi ar y ddarpariaeth a pha ragofalon a hyblygrwydd hoffech chi eu gweld yn cael eu cynnwys?

parhad

Cwestiwn 6 – Ar gyfer yr elfen Cyflogaeth â Chynhorthwy Dros Dymor Hwy o'r rhaglen newydd arfaethedig – beth yw'r dull gorau i ni sicrhau fod darparwyr yn cydweithio'n agos gyda chyflogwyr a phob anabl unigol er mwyn eu helpu i wneud cynnydd yn eu swydd tra'u bod yn derbyn y ddarpariaeth?

Eich ateb:

Yn gryno, yr oedd ymatebwyr yn gefnogol o'r dymuniad i ffocysu ar symud pobl drwy'r ddarpariaeth ac i mewn i waith heb gynhorthwy. Datganwyd awydd aruthrol y dylai hyblygrwydd fodoli dros hyd dwy flynedd yr elfen cyflogaeth â chynhorthwy dros dro.

Yn ogystal, cydnabyddodd llawer o'r rhai a ymatebodd y dylai gwarchodaeth fod yn ei le er mwyn caniatáu i gwsmeriaid ddychwelyd i'r rhaglen, darpariaeth er mwyn i gynhorthwy fod ar gael ar ôl symud oddi ar y rhaglen, ac asesiad yn ystod y cyfnod hwn er mwyn caniatáu i gwsmer symud rhwng elfennau gwahanol o'r rhaglen.

Yn benodol, dywedasoch:

"Yr ydym yn croesawu'r egwyddor o 'gyflogaeth â chynhorthwy dros dro'. Fodd bynnag, rhaid i hyblygrwydd fod yn rhan annatod o'r rhaglen er mwyn sicrhau y gall pob anabl gael gafael ar gynhorthwy fel y bo'i angen, yn hytrach na dychwelyd i fudd-daliadau."
(*Equality 2025*)

"Rhaid cael gwarchodaeth sy'n sicrhau os darganfyddir fod yr unigolyn wedi cael ei symud o'r rhaglen yn rhy gynnar, neu os yw eu hamgylchiadau wedi newid, yna rhaid iddynt gael eu hadfer i'w safle ar y cynllun ar unwaith."
(*Undeb GMB*)

parhad

"Roedd angen mwy o ffocws ar wasanaeth gofal pellach er mwyn sicrhau fod swyddi'n gynaliadwy. Roedd angen i hyn fod â chyswllt â systemau dilyn trywydd gwell a oeddent yn archwiliadwy, yn atebol ac yn agored."
(*Mynediad Cyfartal i Gyflogaeth Glasgow*)

"Mae rhai pobl anabl yn debygol o elwa o fedru cysylltu â'u darparwr Cam at Waith am gyngor a chynhorthwy ar sail am y tro fel y bo'r angen, yn hytrach na gorfod cael eu hailgyfeirio yn ôl i'w darparwr gwreiddiol."
(*Scope*)

"Ie wir, gyda gwarchodaeth yn golygu fod ymgynghori parhaus rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr, a pholisi 'drws agored' ar gyfer unrhyw anghenion am gymorth yn ystod, dyweder, y chwe mis nesaf."
(*Unigolyn*)

"Yn fynych, mae pobl yn fodlon symud oddi ar gyflogaeth â chynhorthwy, fodd bynnag yn aml maent hwy a'u cyflogwr eisiau'r sicrwydd o wybod y gellir cysylltu â rhywun os bydd problemau'n ymddangos."
(*Undeb Cyflogaeth â Chynhorthwy yr Alban – SUSE*)

"Rhaid i unrhyw unigolyn sy'n cymryd y cam hwn fod yn hyderus y gallant barhau i gael gafael ar gynhorthwy tra'u bod mewn swydd oddi wrth asiantaethau trosiannol...Yn yr un modd, rhaid gweithio gyda chyflogwyr, yn ogystal â chyda gweithwyr eraill, er mwyn atgyfnerthu eu gallu a'u hymwybyddiaeth hwy,"
(*RNID*)

Sut mae'r Llywodraeth yn dwyn hyn yn ei flaen

15. Bwriadwn lunio'r rhaglen newydd gyda phwyslais cryf ar anghenion cwsmeriaid unigol sydd â rhwystrau cymhleth er mwyn paratoi ar gyfer, darganfod, dechrau a gwneud cynnydd mewn swydd. Mewn geiriau eraill, i ddarparu cyhorthwy gwell ar gyfer ein cwsmeriaid er mwyn iddynt wireddu eu potensial llawn yn y gwaith.

16. Byddwn yn ystyried y cyfnod hwyaf addas o amser y gall unigolyn aros ar Fodiwl 1. Fodd bynnag, yn wahanol i'r rhaglen Paratoi at Waith sy'n bodoli ar hyn o bryd, (sy'n cyfyngu cwsmeriaid i uchafswm o 13 wythnos), bwriadwn gyflwyno cyfnod hwyaf sy'n fwy addas o lawer gyda gwarchodaeth pe digwydd i unigolyn fod angen mwy o amser i ddod o hyd i swydd. Mae'r newid hwn yn cydnabod y gall cwsmeriaid sydd, â rhwystrau cymhleth rhyngddynt hwy a swydd, fod angen cynhorthwy dwys cyn iddynt fedru cychwyn gwaith taledig.

17. Byddwn yn ystyried sut y dylai ein darparwyr gwasanaeth weithio gyda sefydliadau fel colegau, darparwyr gofal cymdeithasol a Chanolfan Byd Gwaith, er mwyn nod-adnabod cwsmeriaid a fedrent elwa o'r rhaglen newydd hon sydd wedi'i ffocysu ar waith. Bydd cysylltiad rhagweithiol gyda chyflogwyr yn bwysig yn ogystal, er mwyn i gwsmeriaid sy'n dechrau'r rhaglen gael cymorth i ffocysu ar gyfleoedd swydd realistig.

18. Bwriedir gosod terfyn amser ar Fodiwl 2 y rhaglen, h.y. hyd at ddwy flynedd. Fodd bynnag, bydd angen i ni ganfod sut gall cwsmeriaid elwa o'r ddarpariaeth hon trwy sicrhau fod gan bob cwsmer gynllun gweithredu wedi'i gytuno, a

gaiff ei adolygu bob nawr ac yn y man yn rheolaidd, ac y darparir cynhorthwy cysylltiedig. Bydd angen i gynhorthwy o'r fath gael ei ffocysu'n glir ar helpu'r unigolyn i fagu hyder a datblygu eu sgiliau fel bod darparwr y gwasanaeth, ar gyfer llawer o unigolion, yn medru dirwyn eu cynhorthwy i ben a gadael y cwsmer mewn cyflogaeth daledig. Ar gyfer y mwyafrif helaeth o gwsmeriaid, disgwyliwn i gynhorthwy'r darparwr gwasanaeth ddod i ben cyn y pwynt terfyn o ddwy flynedd.

19. Lle, naill ai yn ystod y modiwl cyntaf neu yn gynnar ym Modiwl 2, gwelir bod angen cynhorthwy dros dymor hw, dylai darparwr y gwasanaeth ystyried p'un ai y dylai symud y cwsmer i mewn i Fodiwl 3 neu ymofyn am gynhorthwy o Mynediad at Waith.

20. Byddwn yn trafod cynllun y rhaglen newydd yn fanylach yn ystod cyfres o ddigwyddiadau gyda chwsmeriaid, cyflogwyr, darparwr a chyrff cynrychioliadol dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Monitro a safonau ansawdd

21. Dywedodd yr ymgynghoriad fod cryn rychwant yn bodoli er mwyn gwella ein gwasanaethau cyflogi arbenigol cyfredol ar gyfer pobl anabl sy'n helpu ein cwsmeriaid anabl wireddu eu potensial llawn am gyflogaeth. Er enghraifft, mae angen i ni gael mwy o gysondeb ar draws pob un o'n darparwyr gwasanaeth; gellir cyflawni hyn trwy gyflwyno safonau ansawdd ar gyfer yr holl wasanaeth sy'n galluogi ein cwsmeriaid i wireddu eu potensial llawn am gyflogaeth ni waeth ym mha ardal y mae'r cwsmer yn byw.

22. Oherwydd eu sefyllfa unigryw, dywedasom yn ogystal y byddem yn ystyried rôl mwy eglur i'n Ymgynghorwyr Gwaith i Bobl Anabl (DEAs) yng Nghanolfan Byd Gwaith fel pwynt cysylltu er mwyn i'n cwsmeriaid fedru rhoi atborth ynghylch eu profiadau. Mae hyn yn digwydd eisoes, ond nid mewn dull cyson. Sylweddolwn nad yw ein cwsmeriaid cyfredol bob amser yn gwybod sut i roi atborth, neu hyd yn oed fod ganddynt yr hawl i wneud hyn. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch rôl arfaethedig y DEA ym Mhennod Pedwar.

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 7 – Beth ddylem ni ei wneud er mwyn sicrhau y cyflawnir safonau uchel yn gyson?

Eich ateb:

Cafwyd pwyslais cryf ar bwysigrwydd monitro trylwyr a systemau archwilio gyda fframwiath Safonau Ansawdd yn ei le.

Yr oedd llawer o sefydliadau anabledd yn glir ynghylch yr angen i gynnwys pobl anabl yn y broses, ac i'w barnau hwy dderbyn sylw haeddiannol trwy atborth. Gwelwyd cefnogaeth gref i gyfranogaeth DEA yn y broses o fonitro.

Yn benodol, dywedasoch:

"Rhaid cael mecanweithiau Sicrwydd Ansawdd cadarn er mwyn sicrhau fod y rhaglen arfaethedig yn cael ei gweithredu'n effeithlon ac yn gyson ar draws y ddarpariaeth."
(*Cyngor Dinas Newcastle*)

parhad

"Rhoddodd arolygiadau Ofsted ac Estyn o'r rhaglen Cam at Waith, feincnodau clir er mwyn i Ddarparwyr gymharu eu perfformiad hwy yn erbyn darparwyr eraill, gyda safonau a gawsant eu hasesu'n oddrychol."
(*WISE Cyf*)

"Sicrhewch fod prif gontractwyr yn cael eu rheoli gan gôd arfer a fframwaith cyfreithiol gorfodol."
(*Ymgynghorwyr Anabledd Access Made Easy*)

"Dylai'r gwahoddiad i dendro roi datganiad clir o'r rhagfanyleb a'r gwasanaeth y gofynnir amdano. Mae angen i'r broses o osod contractau, monitro, dulliau Sicrwydd Ansawdd, arferion a gweithdrefnau fod yn gadarn; a dylid defnyddio dulliau wedi'u seilio ar dystiolaeth er mwyn gwerthuso'r dogfennau tendro."
(*Aelod o staff DWP*)

"Dylid mabwysiadu agwedd mwy hyblyg tuag at y darged gyfredol o 8 wythnos er mwyn dod o hyd i waith fodd bynnag: dylid gosod nodau clir, heriol i ddarparwyr a gânt eu hadolygu trwy gyfrwng trefn gadarn o sicrwydd ansawdd."
(*Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Swydd Derby*)

"Bydd monitro rheolaidd o ansawdd wedi'i seilio ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin yn caniatáu i ansawdd y ddarpariaeth ar draws y wlad gael ei rhoi ar brawf."
(*Cymdeithas Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Chyflogaeth – ERSA*)

"Dylai cwsmeriaid gael eu monitro'n ddibaid a dylai fod yn bosibl i'r DEA symud cwsmeriaid o un rhan o'r gwasanaeth i un arall."
(*Bridge Employment*)

parhad

> "Efallai bod angen i'r cam cynllunio fod yn gam cydweithrediadol sy'n cynnwys y DEA, y darparwr perthnasol, o bosib y Gwasanaeth Addysg Bellach a chyflogwr potensial."
> (*Unigolyn*)

Sut mae'r Llywodraeth yn dwyn hyn yn ei flaen

23. Byddwn yn edrych ar arferion gorau a gymhwysir ar hyn o bryd a nodi dulliau y medrwn eu defnyddio er mwyn gwella safonau ansawdd ymhellach er mwyn sicrhau fod y rhaglen newydd wedi'i ffocysu ar anghenion pobl anabl unigol, er mwyn darparu cynhorthwy iddynt fedru gwireddu eu potensial llawn am gyflogaeth.

Comisiynu'r rhaglen newydd

24. Dywedodd yr ymgynghoriad ein bod yn bwriadu cynnal tendr agored, cystadleuol gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Bydd hwn yn rhoi sylw haeddiannol i wersi a ddysgwyd o ddarparieth sy'n bodoli eisoes ac yn cynnwys yr egwyddorion allweddol a amlinellir yn ein strategaeth comisiynu newydd. Byddwn yn sicrhau fod y rhaglen newydd yn mabwysiadu'r mesurau newydd hyn tra'n parhau i roi anogaeth gref i ddefnyddio isgontractwyr er mwyn bod o gymorth i sicrhau y cynigir gwasanaeth amrywiaethol i'n cwsmeriaid a bod gwybodaeth arbenigol rhai o'n darparwyr bach, mwy llwyddiannus, yn dal i gael ei ddefnyddio.

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 8 – Beth arall fedrwn ni ei wneud er mwyn gwella sut darparir gwasanaethau cyflogaeth â chynhorthwy'r DWP ar gyfer pobl anabl?

Cwestiwn 12 – Yr ydym yn ystyried cynnal tendr cystadleuol, agored ar gyfer contractau. Ar gyfer rhai o'n cwsmeriaid Cam at Waith, gallai hyn olygu bod eu cynhorthwy cyflogaeth yn cael ei drosglwyddo i ddarparwr arall. Beth fyddai angen i ni ei ystyried a pha bethau, yn eich barn chi, y byddai angen i ni eu gwneud er mwyn helpu i sicrhau llwyddiant unrhyw drosglwyddiadau o'r fath?

Cwestiwn 14 – A oes urnhyw faterion penodol eraill y byddai angen i ni eu hystyried wrth symud i dendr cystadleuol ar gyfer y ddarparieth hon?

Eich ateb:

Yr oedd llawer o ddarparwyr cyfredol a'u cyrff cynrychioladol yn teimlo na ddylai fframwaith Strategaeth Comisiynu'r DWP a'r Côd Ymddygiad gael eu cymhwyso i'r ddarpariaeth arbenigol hon. Seiliwyd y pryderon hwn ar rai profiadau diweddar o wneud cais am gontract ar gyfer busnes DWP.

Datganwyd pryder yn ogystal y byddai sefydliadau mwy o faint yn llai abl na darparwyr llai i adeiladu cydberthnasau gyda darparwyr gofal cymdeithasol, ysgolion a cholegau. Ar ben hyn, medrai colli'r wybodaeth arbenigol sydd gan darparwyr presennol fod yn niweidiol i effeithiolrwydd y rhaglen newydd.

Mynegodd rhai darparwyr bryder y cawsai rhai darparwyr da sy'n gweithio o fewn Paratoi at Waith a Cham at Waith yn unig eu cosbi oherwydd nad oeddent ar hyn o bryd yn cynnig yr ystod llawn o ddarpariaeth.

parhad

Yn benodol, dywedasoch:

"Nid ydym wedi'n argyhoeddi mai tendro cystadleuol yw'r dull cywir o fynd ati i ymdrin ag anghenion pobl anabl. Mae angen sefydlogrwydd ar bobl anabl ac agwedd cyson tuag at eu problemau. Mae llawer ohonynt yn ei chael yn anodd i ymdopi â newid a gall hyn effeithio ar sut maent yn cyflawni eu gwaith."
(*Undeb GMB*)

"Gall rheoliadau TUPE olygu nad yw'r newid mewn gwasanaeth y sylwir arno gan y cwsmer o gymaint o bwys. Dylai DWP sicrhau fod y datganiadau ynghylch TUPE a wneir yn y Strategaeth Comisiynu yn cael eu cadarnhau yn y broses tendro am wasanaethau arbenigol pobl anabl."
(*Cymdeithas Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Chyflogaeth – ERSA*)

"Ar yr amod fod gan y darparwr newydd ddealltwriaeth dda o'r grŵp hwn o gwsmeriaid ac ymrwymiad i fynd i'r afael â gwneud cynnydd ynghyd â goblygiadau hyn, ni ddylai trosglwyddo i ddarparwr newydd achosi unrhyw broblemau."
(*Diwydiannau y Lleng Brydeinig Frenhinol – RBLI*)

"Byddai cyfnod trefnus o drosglwyddo ynghylch â chyfnod o gyflwyno helpu i drosglwyddo o un darparwr i un arall. Fodd bynnag, byddai hyn angen cyfnod lle byddai, mewn gwirionedd, dau ddarparwr yn gweithio gyda rhywun cyfrannog a byddai gan hynny oblygiadau o safbwynt adnoddau."
(Cyngor Dinas Newcastle)

parhad

"Rhaid i bob newid gael ei gyfathrebu'n glir ac yn agored i bob cwsmer cyfredol. Bydd angen rhoi trefniadau trosiannol yn eu lle er mwyn sicrhau y trosglwyddir cyfrifoldeb yn ddi-drafferth i'r darparwr newydd ac osgoi unrhyw oediadau neu fylchau yn y cynhorthwy a gynigir i gwsmeriaid." (*Scope*)

"Cyfnod trosglwyddo o rhyw ddeufis rhwng y darparwr newydd a'r hen un. Sicrhewch fod yr 'hen' ddarparwr wedi llunio cynlluniau datblygu i'r funud ar gyfer pob cwsmer." (*Unigolyn*)

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 13 – Beth, yn eich barn chi, yw'r dull gorau i ni sicrhau ein bod yn cadw sgiliau'r darparwyr llai ac arbenigol yn y tendr cystadleuol, agored ar gyfer y rhaglen newydd hon?

Eich ateb:

Un o bryderon mawr y darparwyr llai a anfonasant ymateb oes y byddai darparwyr mawr yn cymryd cyfran helaeth o'r cyllid ar gyfer costau gweinyddol/rheoli gan adael cyllid annigonol ar gyfer sefydliadau llai/arbenigol. Datganwyd pryderon yn ogystal y byddai'n rhaid i gytundebau fod yn 'dynn' er mwyn sicrhau nad yw prif ddarparwyr yn 'dethol y goreuon' ymhlith y bobl sydd fwyaf hawdd eu helpu ar eu cyfer eu hunain.

parhad

Yn benodol, dywedasoch:

"Yr ydym yn pryderu y rhoddir contractau i ddarparwyr cenedlaethol, yn arbennig yn y sector preifat, y bydd angen iddynt gymryd cyfran pwysig o'r cyllid i gychwyn er mwyn sefydlu systemau gweinyddol mawr."
(*WISE Cyf*)

"Mae'r strategaeth comisiynu yn rhoi braslun o farchnad o brif gontractwyr mawr generig; yn ein barn ni byddai hynny'n arwain at gyllid yn cael ei ddargyfeirio o ddarparu gwasanaeth i gostau rheoli a gweinyddol."
(*Cyngor Dinas Newcastle*)

"Gall y model prif gontractwr arwain at ddefnyddio arian ar gyfer cyfrifoldebau gweinyddol h.y. rheoli cyllideb ac ati, oherwydd maint y contractau sy'n cael eu gosod, ac o ganlyniad mae'r arian sy'n hidlo i lawr i isgontractwyr yn lleihau yn gyfatebol. Awgrymwyd hefyd y gallai Prif Gontractwyr ddwyn ymaith hawl yr unigolyn i ddewis oddi wrth y rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny."
(*Adran Weithredol yr Alban*)

"Mae angen i'r system cyllido ddangos yn glir sut y cawsai taliadau eu rhaeadru i lawr o'r prif gontractwr i bartneriaid llai."
(*Equality 2025*)

parhad

"Roedd angen i'r trefniadau newydd sicrhau nad oedd darparwyr llai o faint yn cael eu hanfanteisio yn y broses contractio newydd. Cafwyd peth pryder y medrai prif gontractwyr beidio â rhannu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth gydag eraill, ac yn arbennig y byddai'r ddarpariaeth o wasanaeth arbenigol yn dioddef. Wedi'i gysylltu â hyn datganwyd amheuon ynghylch gallu unig ddarparwyr i ddarparu'r gwasanaeth cyfan. Dylid ystyried rhyw fath o 'rwyd diogelwch' ar gyfer isgontractwyr." (*Mynediad Cyfartal i Gyflogaeth Glasgow*)

"Mae'n bosibl y caiff sefydliadau o'r math sy'n cyflogi'n fasnachol gael eu denu gan y taliadau uwch a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer symud ymlaen i gyflogaeth â chynhorthwy. Mae perygl mawr y bydd y grwpiau masnachol hyn yn gweld hyn fel cyfle i 'ddethol y goreuon' o'u sylfaen cwsmeriaid a methu â chynllunio'n ddigonol o flaen llaw ar gyfer elfennau drutach y math hwn o wasanaeth." (*Ymddiriedolaeth Shaw*)

Sut mae'r Llywodraeth yn dwyn hyn yn ei flaen

25. Ein bwriad yw i gychwyn y rhaglen newydd o Hydref 2010 a byddwn yn defnyddio Strategaeth Comisiynu'r DWP er mwyn caffael y rhaglen newydd. Cafodd Strategaeth Comisiynu'r DWP a'r Côd Ymddygiad eu cyhoeddi yn Chwefror 2008. Yr oeddent yn gosod allan ein hamcanion ar gyfer cyflawni newid mewn cyfeiriad yn y dull a ddefnyddiwn i ddarparu rhaglenni diwygio lles. Mae'n rhoi braslun o'n cylluniau i gyflwyno contractau hwy, mwy o faint, gyda mwy o gyllid wedi'i seilio ar ganlyniadau, sy'n cynnig gwell gwerth am yr arian ar gyfer y trethdalwr ac yn cynnig y cyfle i gontractwyr fod yn fwy hyblyg yn eu dulliau o gysylltu â chwsmeriaid.

26. Prif nod y Strategaeth yw i ddod ag agwedd arbennig, hyblyg i ddarparu gwasanaeth wedi'i seilio ar wybodaeth arbenigol, sgiliau a phrofiad gan ddefnyddio'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan adeiladu ar y gyfran bwysig o cymorth a chynhorthwy sydd ar gael i bobl diwaith a roddir eisoes o dan gontract gan ddarparwr. Dymunwn ddatblygu sail gyson o ddarparwyr y byddwn yn eu hannog i weithio o'u pen a'u pastwn eu hunain a bod yn arloesol er mwyn darparu gwasanaethau, a chan gysylltu â'r seilwaith darparu lleol addas sy'n llwyddo orau i ddod o hyd i swyddi â phara ynddynt.

27. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, yr ydym yn asesu maint priodol contractau a sut y gellir cymhwyso'r egwyddorion a amlinellir yn y Strategaeth Comisiynu i'r gwasanaeth hwn. Byddwn yn gwneud gwaith ymgynghori pellach ynghylch yr agweddau comisiynu a masnachol dros yr ychydig fisoedd nesaf a rhagwelwn y rhoddir y wedd derfynol ar y materion hyn yn gynnar yn 2009.

28. Gwyddom am y pryderon a ddatganwyd gan rai darparwyr gwasanaeth cyfredol, yn yr ymgynghoriad hwn a thrwy fforymau eraill ynghylch dyfodol y sector gwirfoddol a darparwyr arbenigol, fodd bynnag bydd angen i ni sicrhau fod y Strategaeth Comisiynu yn ganolog i'r dull y comisiynir y rhaglen newydd. Oherwydd hyn, byddwn yn:

    - comisiynu'r rhaglen newydd yn unol â'r egwyddorion a osodir allan yn Strategaeth Comisiynu'r DWP a gyhoeddwyd yn Chwefror 2008;
    - trafod a dadlau'n agored gyda chymaint o gyrff cynrychioliadol ag y bo modd, er enghraifft Fforwm Darparwyr DWP, Swyddfa'r Trydydd Sector, ACEVO, y Fforwn Anabledd, er mwyn trafod dulliau y gallwn eu defnyddio er mwyn sicrhau y gall darparwyr cyfredol gwasanaethau gysylltu â'r broses comisiynu;
    - defnyddio gwersi a ddysgwyd wrth gysylltu â darparwyr yn ystod y broses o dendro ar gyfer y Fargen Newydd Hyblyg;
    - cymryd camau er mwyn annog ein darparwyr gwasanaeth arbenigol cyfredol, lle maent yn dymuno mynd i'r afael â'r Strategaeth Comisiynu; a
    - caniatáu digon o amser rhwng dyfarnu contractau a chychwyn y rhaglen newydd i drefniadau trosiannol gael eu rhoi yn eu lle sy'n nodi'r cwsmeriaid Cam at Waith presennol a fyddant yn symud draw i'r rhaglen newydd.

29. Mae Atodiad B yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch fframwaith y Strategaeth Comisiynu a'r Côd Ymddygiad, ac yn dangos sut bydd DWP yn ceisio ei gymhwyso i'r rhaglen newydd. Yr ydym yn parhau i drafod dulliau y gallwn annog ein darparwyr gwasanaeth cyfredol a photensial i gyfranogi'n llawn yn y broses tendro cystadleuol ar gyfer y rhaglen newydd.

30. Am wybodaeth fanylach ynghylch Strategaeth Comisiynu'r DWP, byddwch gystal â mynd at: http://www.dwp.gov.uk/publications/dwp/2008/com-strategy/cs-rep-08.pdf

Rôl busnesau â chynhorthwy yn y dyfodol

31. Dywedodd yr ymgynghoriad "Yn dilyn trafodaethau gyda Chymdeithas Cyflogaeth â Chynhorthwy Prydain (BASE) ac undeb Cymuned, yr ydym yn ystyried rhoi peth gwarchodaeth gytundebol i'r oddeutu 3,000 o'r mannau busnes â chynhorthwy (e.e. ffatrïoedd a gweithdai) a ddefnyddir ar hyn o bryd o fewn y rhaglen Cam at Waith. Medrai hyn, er enghraifft, fod ar ffurf gwarantu lefel o gyllid ar gyfer pob un o'r mannau hyn dros hyd y contract."

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 9 – Pa rôl swyddogaeth ydych chi'n credu y dylai busnesau/ffatrïoedd cynorthwyedig ei chwarae o ran darparu cyflogaeth ar gyfer pobl anabl?

Eich ateb:

Derbyniwyd ystod o farnau ynghylch swyddogaeth busnesau/ffatrïoedd cynorthwyedig yn y dyfodol. Teimlai rhai unigolion a sefydliadau nad oedd rôl iddynt, eu bod yn gosod pobl anabl mewn geto ac nad oedd swyddogaeth iddynt mewn Prydain fodern.

Yr oedd sefydliadau eraill, yn bennaf y darparwyr hynny gyda busnesau/ffatrïoedd cynorthwyedig a gweithwyr o fewn y busnesau hynny, ar y pen arall o'r sbectrwm gan deimlo fod ganddynt rôl bwysig a pharhaol i'w chwarae yn y gwaith o roi cyflogaeth a chyfle i bobl anabl na fyddent fyth mewn sefyllfa i fedru cynnal cyflogaeth heb gynhorthwy.

Cydnabu'r rhan fwyaf o ymatebwyr er mai symud i ffwrdd o gyflogaeth/ffatrïoedd cynorthwyedig oedd y peth cywir ar gyfer llawer o gwsmeriaid, y bydd angen bob amser am fusnesau cynorthwyedig, ar gyfer y bobl hynny sydd bellaf i ffwrdd o gyflogaeth agored.

Yr awgrymiadau mwyaf cyffredin oedd i ddefnyddio busnesau cynorthwyedig mwy ar gyfer hyfforddi a phwrpasau lleoliad gwaith ac iddynt ailstrwythuro i fodel Cwmnïau Cymdeithasol.

parhad

Yn benodol dywedasoch:

"Nid oes unrhyw dystiolaeth fod profiad gwaith gwarchodedig yn helpu pobl i symud ymlaen i cyflogaeth agored – yn aml, y gwrthwyneb sy'n wir, gyda phobl yn dyfod yn 'sefydliadol' mewn amgylchfydoedd gwarchodedig… Yr ydym, yn gyffredinol, yn croesawu'r cyfeiriad y mae'r Llywodraeth yn mynd iddo ar y pwnc hwn. Nid yw cynnal sector cyflogaeth gwarchodedig sy'n rhy fawr yn gost-effeithiol ac mae'n atgyfnerthu'r farn fod llawer o bobl anabl yn methu â gweithio mewn cyflogaeth prif-ffrwd."
(*RADAR*)

"Roedd gweithwyr Bridge yn teimlo nad oes gan busnes cynorthwyedig rôl o ran rhoi cynhorthwy i bobl ag anableddau er mwyn iddynt gael gwaith mewn cymdeithas lle rhoi digon o gynhorthwy er mwyn eu cynorthwyo i mewn i gyflogaeth agored."
(*Bridge Employment*)

"Nid oes gennyf lawer o frwdfrydedd ar gyfer busnesau/ffatrïoedd cynorthwyedig oni bai eu bod yn ddyfais er mwyn cael pobl i mewn i swyddi prif-ffrwd. Nid wyf yn credu fod pobl anabl eisiau nad angen, mewn gwirionedd, cael eu rhoi mewn geto oni bai fod rhesymau clir datganedig dros wneud hyn."
(*Unigolyn*)

"Bydd canran fach o bobl yn bodoli wastad sy'n anodd iawn eu lleoli mewn swydd prif-ffrwd heb becyn mawr o gynhorthwy a chyflogwr sy'n dra chefnogol. Ar gyfer y ganran fechan hon, bydd busnesau/ffatrïoedd cynorthwyedig bob amser yn hanfodol er mwyn galluogi'r person i wneud cyfraniad gwerthfawr ac er mwyn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol ar gyfer pawb."
(*Undeb Cyflogaeth â Chynhorthwy yr Alban – SUSE*)

parhad

"Yr ydym ni'n credu y dylai darpariaeth Busnes Cynorthwyedig fod â rôl i'w chwarae yn narparu pob agwedd ar y rhaglen arfaethedig."
(*Cyngor Dinas Newcastle*)

"Teimlwn na ddylai pobl anabl gael eu hannog na'u gorfodi i fynd i mewn i ffatrïoedd a busnesau arwahanedig/gwarchodedig ac y dylai'r rheiny sy'n gweithio ynddynt ar hyn o bryd dderbyn cynhorthwy i fynd ar drywyddd cyfleoedd cyflogaeth prif-ffrwd. Yn y tymor byr-canolig gall ffatrïoedd a busnesau gwarchodedig ddarparu cyfleoedd hyfforddiant neu brofiad gwaith defnyddiol ar gyfer y rheiny nad ydynt yn meddu ar y sgiliau meddal sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith, ond mae Scope yn glir na ddylid ystyried cyflogaeth warchodedig fel dewis amgen derbyniol i gyflogaeth prif-ffrwd."
(*Scope*)

"Mae Mentrau Cymdeithasol yn darparu cyfle ardderchog ar gyfer hyfforddi a datblygu y rheiny sydd bellaf o'r farchnad lafur fel carreg sarn i gyflogaeth prif-ffrwd a gellid eu archwilio fel dewis amgen i fusnesau/ffatrïoedd cynorthwyedig."
(*Diwydiannau y Lleng Brydeinig Frenhinol – RBLI*)

parhad

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 10 – Os awn ymlaen â'r diwygiadau hyn, ydych chi'n credu y dylem gynnig peth gwarchodaeth ar gyfer busnesau cynorthwyedig pan fyddwn yn tendro ar gyfer y rhaglen newydd? Os felly, pa fath o warchodaeth ddylai hyn fod ac am ba hyd o amser a ddylai bara?

Eich ateb:

Cafwyd cefnogaeth unfrydig ar gyfer cynnig gwarchodaeth i fusnesau o'r fath gydag awgrymiadau yn ymestyn o flwyddyn i 10 mlynedd (rhwng dwy flynedd a phum mlynedd oedd yr ystod mwyaf cyffredin). Roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau yn dilyn y patrwm y dylai gwarchodaeth fodoli gyda'r amod fod cynlluniau moderneiddio wedi'u cytuno yn cael eu datblygu ar gyfer pob busnes/ffatri.

Yn benodol, dywedasoch:

"Yn hytrach na gorfodi busnesau cynorthwyedig 'gwael' i gau, dylem edrych am ddulliau o'u gwella, er mwyn darparu sefydlogrwydd ar gyfer eu gweithwyr."
(*Unigolyn*)

"Yr ydym yn falch bod yr Adran yn ystyried cynnig peth gwarchodaeth ar gyfer gweithwyr mewn ffatrïoedd cynorthwyedig, ond yn pryderu fod y cynlluniau yn ymddangos fel pe na baent yn mynd ddim pellach nac oes eu contractau presennol. Nid yw'r dystiolaeth yn dangos bod problemau sylfaenol yn null y sector cyhoeddus o roi darpariaeth."
(*TUC*)

parhad

"Dylai ffatrïoedd weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau cyflogi cynorthwyedig, er mwyn datblygu eu gweithwyr, os ydynt hwythau'n fodlon i hynny ddigwydd, ac y dylid dirwyn cyfeiriadau i ffatrïoedd gan DEAs i ben yn raddol, fel yr unig fodd o sicrhau y cânt eu diddymu."
(*WISE Cyf*)

"Mae BASE yn nodi'r bwriad i barhau i gynnal trafodaeth ynghylch dyfodol darpariaeth wedi'i seilio ar ffatrïoedd. Mae moderneiddio yn flaenoriaeth a byddai peth gwarchodaeth dros dro yn caniatáu i newidiadau wedi'u rheoli gael eu rhoi ar waith, cyhyd ag y bod cyflogwyr yn cynhyrchu cynlluniau newid cadarn."
(*Cymdeithas Cyflogaeth â Chynhorthwy Prydain – BASE*)

"Gall y ffatrïoedd cynorthwyedig chwarae rhan hanfodol yn y cam rhag-gyflogi trwy ddarparu man dysgu wedi'i seilio yn y gwaith ar gyfer amrediad o anableddau."
(*Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful*)

"Dylai gwarchodaeth fod yn amodol ar y busnesau yn bodloni safonau ansawdd gosod y gellir mesur eu heffeithiolrwydd yn eu herbyn."
(*Pluss*)

"Yn wir, yr ydym yn credu fod angen fod angen gwarchodaeth ar gyfer busnesau cynorthwyedig ond dim ond ar ôl creu strategaeth wedi'i chytuno ar gyfer newid."
(*Mentrau Elusennol Azure*)

parhad

"Os na roddir gwarchodaeth i'r ddarpariaeth hon beth fydd yn digwydd i'r bobl sy'n methu â chynnal swydd prif-ffrwd, ni waeth pa faint o gynhorthwy a gânt. Dylid cynnig gwarchodaeth i fusnesau/ffatrïoedd er mwyn helpu i ddatblygu darparieth ar gyfer y dyfodol."
(*Community*)

"Teimlwn y bydd y warchodaeth gytundebol a awgrymir ar gyfer Busnesau Cynorthwyedig yn hanfodol er mwyn caniatáu cyfnod o foderneiddio. Heb gynhorthwy ychwanegol, credwn y byddai Busnesau Cynorthwyedig ledled y wlad dan fygythiad difrifol ac y cawsai hyn effaith negyddol ar bawb sy'n ymwneud â nhw, yn arbennig y cyfranogion."
(*Cyngor Dinas Newcastle*)

Sut mae'r Llywodraeth yn dwyn hyn yn ei flaen

32. Yn dilyn yr ymgynghoriad rydym wedi cynnal trafodaethau gyda'r Gymdeithas Brydeinig dros Gyflogaeth â Chynhorthwy-+ (BASE) a'r undeb Community i ystyried sut y gallwn roi rhywfaint o warchodaeth gytundebol i'r lleoedd busnes cynorthwyedig.

33. Rydym yn ystyried rhyw fath o warchodaeth i'r lleoedd ar gyfer cyfranogwyr yn y busnesau cynorthwyedig. Byddwn yn trafod trefniadau ymhellach yn ystod cyfres o ddigwyddiadau gyda darparwyr, cwsmeriaid, cyflogwyr a grwpiau cynrychiolwyr pobl anabl dros yr ychydig fisoedd nesaf.

34. Roeddem yn eglur yn yr ymgynghoriad os cynigiwn rywfaint o warchodaeth i'r busnesau hyn, nad yw hyn o anghenraid oherwydd ein bod yn fodlon gyda'r perfformiad cyffredinol ar hyn o bryd. Byddai unrhyw warchodaeth yn cael ei roi mewn perthynas â sefyllfa hanesyddol unigryw busnesau a gefnogir, sefyllfa eu gweithwyr anabl a'r anawsterau arbennig a wynebant wrth ddiwygio o fewn amserlen fer.

Trosglwyddiadau i raglen newydd

35. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cydnabod mai ystyriaeth hanfodol wrth uno'r rhaglenni hyn yw sicrhau bod y cwsmeriaid Cam at Waith presennol yn pontio i'r rhaglen newydd, pan fo'r trefniadau newydd yn dechrau.

36. Bydd angen gofynion clir yn nodi y bydd angen i ddarparwyr y rhaglen newydd gymryd cyfrifoldeb am gefnogi cwsmeriaid presennol Cam at Waith. Bydd sut y gwneir hyn yn amrywio yn dibynnu ar p'run ai yw'r cwsmer:

    - yn gweithio mewn busnes a gefnogir;
    - yn cael ei gyflogi yn uniongyrchol gan un o'n darparwyr cyfredol; neu
    - fel yn y mwyafrif o achosion, yn gweithio i gyflogwr allanol.

37. Bydd angen i'n holl ddarparwyr cyfredol a newydd weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y pontio yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus ar gyfer pob cwsmer.

38. Bydd yn rhaid i ddarparwyr sy'n llwyddo i ennill contractau ar gyfer y ddarpariaeth newydd yn gyntaf gyflenwi'r holl gymorth y mae ar yr holl gwsmeriaid presennol a'u cyflogwyr ei angen ar unwaith. Yn dilyn hyn bydd yn ofynnol iddynt weithio'n agos gyda phob unigolyn i sicrhau bod ganddynt gynllun datblygu cyfoes a ddylai gynnwys, lle bo hynny'n briodol i'r unigolyn, y cymorth sy'n angenrheidiol iddynt symud tuag at waith na roddir cymorth tuag ato.

39. Byddwn yn parhau i drafod materion pontio gyda sefydliadau cynrychioliadol. Rydym yn cydnabod bod llawer o'r materion i'w trin yn sensitif i gyfranogwyr Cam at Waith ac i weithwyr. Bydd angen i drefniadau priodol gael eu cyfleu yn glir i unigolion a sefydliadau i sicrhau y cyflawnir pontio llyfn i'r rhaglen newydd.

40. Bwriadwn fod â chyfnod o chwe mis cyn cyhoeddi canlyniad yr ymarferiad tendro cystadleuol a dechrau rhaglen newydd. Dylai hyn roi digon o amser i ddatrys materion yn ymwneud â'r pontio.

Grant Cymorth i Ffatrïoedd

41. Ar hyn o bryd mae'r Grant Cymorth i Ffatrïoedd yn darparu cyllid i fusnesau cynorthwyedig i, er enghraifft, brynu peiriannau newydd neu foderneiddio'r gwasanaethau a gynigiant. Roeddem yn argymell y dylai ein holl gyllid gael ei gyfarwyddo at gwsmeriaid unigol. Argymhellodd yr ymgynghoriad y dylid dirwyn y Grant Cymorth i Ffatrïoedd i ben, gyda'r arian yn mynd at helpu mwy o bobl i fynd ar y rhaglen newydd arfaethedig.

42. Fel cam dros dro, argymhellwyd y byddai'n helpu'r busnesau presennol y rhoddir cymorth tuag atynt i foderneiddio pe baem yn nodi bod unrhyw geisiadau pellach am gyllid y Grant Cymorth i Ffatrïoedd yn canolbwyntio ar ffyrdd o foderneiddio'r busnesau. Bwriad hyn fyddai cynhyrchu mwy o niferoedd a fyddai yn symud ymlaen at waith heb ei gefnogi a chynhyrchu ansawdd gwasanaeth gwell i bobl sy'n symud ymlaen o fewn y cymorth.

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 11 – Rydym yn argymell trawsnewid Grant Cymorth i Ffatrioedd Cam at Waith i ddechrau i ganolbwyntio ar foderneiddio gwasanaethau i gyflenwi gwell dilyniant o fewn a'r tu allan i'r rhaglen. Byddai hyn yn lle, er enghraifft, prynu offer ffatri newydd. Maes o law hoffem wario'r arian hwn yn uniongyrchol ar helpu mwy o unigolion i fynd ar y rhaglen newydd arfaethedig. Beth yw eich barn ynglŷn â'r argymhelliad hwn?

Eich ateb:

Yn gryno, gellid rhannu ymatebion ar hyd y llinellau a oedd yr ymatebwr yn dod oddi wrth ddarparwr gyda busnes/ffatri cynorthwyedig ai peidio. Os oedd hyn yn wir roeddent yn fwy tebygol o gefnogi cynnal y Grant Cymorth i Ffatrïoedd yn ei ffurf bresennol.

Roedd ymatebwyr eraill yn tueddu i fod yn gefnogol iawn i'r bwriad i sicrhau bod y Grant Cymorth i Ffatrïoedd yn pontio i rywbeth a oedd yn cael ei wario ar yr unigolyn ac yn dilyn yr unigolyn drwy'r rhaglen.

parhad

Yn benodol, dywedasoch:

"Nid yw RNIB yn cefnogi'r farn y dylai'r unig ddewis sydd ar gael fod rhwng cefnogi unigolion neu gefnogi caffael offer ffatri newydd."
(*RNIB*)

"Mae SCOPE yn cefnogi'n gryf yr argymhelliad i gyfarwyddo cyllid tuag at unigolion i'w helpu i sicrhau gwaith ystyrlon a buddiol ym marchnad lafur y prif ffrwd."
(*Scope*)

"Mewn egwyddor rydym yn cytuno gyda'r bwriad i symud tuag at ffocysu'r Grant Cymorth i Ffatrïoedd ar sicrhau dilyniannau."
(*Cyngor Dinas Newcastle*)

"Dylai'r arian gael ei dargedu at gynyddu sail sgiliau pobl sy'n gwneud y pontio rhwng gwaith a gefnogir a gwaith na roddir cymorth tuag ato i sicrhau bod y pontio hwn yn un parhaol."
(*RNID*)

"Mae canolbwyntio ar wella gwasanaeth yn hytrach na darparu cyllid ar gyfer offer cyfalaf yn ymddangos fel pe bai'n ffordd dda ymlaen."
(*A4A – Gweithredu dros Gyflogaeth*)

"Credwn ei bod yn debygol y bydd angen parhaus am fecanwaith sy'n debyg i'r cynllun Grant Cymorth i Ffatrïoedd presennol i ddarparu cymorth ariannol i gyflogi pobl gydag anableddau...ni ddylai defnyddio Grant Cymorth i Ffatrïoedd wedi ei foderneiddio i brynu offer gael ei ddiystyru."
(*Cyngor Dosbarth Metropolitanaidd Dinas Bradford – Gwasanaeth Sgiliau ar gyfer Gwaith*)

Sut mae'r Llywodraeth yn dwyn hyn yn ei flaen

43. Er ein bod yn cydnabod bod llawer o fusnesau a gefnogir yn ystyried y dylent barhau i gyllido offer ac ati, yn gyffredinol credwn nad ydym yn y sefyllfa orau i gytuno nac anghytuno gyda phryniadau o'r fath. Yn bennaf, dylid gwario cyllid y DWP ar foderneiddio busnesau a gefnogir mewn modd a fydd yn annog mwy o'n cwsmeriaid i symud tuag at ac, i lawer, i mewn i waith na roddir cymorth tuag ato.

44. Felly, o 1 Medi 2008 ymlaen, diwygiwyd y meini prawf ar gyfer Grantiau Cymorth i Ffatrïoedd i adlewyrchu'r newid pwyslais hwn.

Monitro ac asesu cynnydd cwsmeriaid unigol

45. Mae cynlluniau peilot y 'pellter a deithiwyd' i fod i ddirwyn i ben yn nes ymlaen eleni. Yna byddwn yn ystyried y canlyniadau o'r cynlluniau peilot hyn ac yn nodi a fyddai'r teclyn hwn neu rywbeth tebyg, o fudd i gwsmeriaid, eu cyflogwyr a'n darparwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod y ffocws i gwsmeriaid tymor hwy'r rhaglen newydd yn parhau i fod ar ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a hyder mewn modd a allai, gydag amser, alluogi'r cwsmer i symud i waith na roddir cymorth tuag ato.

Pennod Pedwar – Swyddogaeth yr Ymgynghorydd Gwaith i Bobl Anabl

Rhagarweiniad

1. Mae Ymgynghorwyr Gwaith i Bobl Anabl (DEAs) yn y Ganolfan Byd Gwaith ar hyn o bryd yn gweithredu fel porth i rai o'n gwasanaethau arbenigol i bobl anabl, er enghraifft Paratoi at Waith a Cholegau Hyfforddi Preswyl, i helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn cael ei thargedu at y cwsmeriaid hynny a fyddai'n elwa fwyaf.

2. Ond ar Cam at Waith rydym yn caniatáu i ystod o ddarparwyr gyflawni'r broses cymhwyster ar eu rhan eu hunain, yn ychwanegol at dderbyn pobl gymwys a gyfeirir gan yr Ymgynghorydd Gwaith i Bobl Anabl. Cyflwynwyd y trefniant hwn ar adeg pan oedd y Ganolfan Byd Gwaith yn ymgysylltu llawer llai â'r grŵp hwn o gwsmeriaid a phan oedd y rhaglen yn methu â bodloni'r galw posibl.

3. Er bod gan y llwybr uniongyrchol hwn i'n gwasanaethau ei fanteision, mae hefyd wedi codi rhai cwestiynau ynghylch a yw cwsmeriaid sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf yn cael eu blaenoriaethu yn ddigonol. Ystyriodd yr ymgynghoriad pa mor briodol fyddai ail-gadarnhau rôl yr Ymgynghorydd Gwaith i Bobl Anabl o sicrhau bod ein gwasanaethau gwaith arbenigol i bobl anabl, gan gynnwys gwaith a gefnogir, ar gael i'r unigolion hynny sydd eu hangen yn unig.

Adolygu'r angen am gymorth

4. Rydym hefyd yn ymwybodol o'n hymchwil bod llawer o bobl yn aros ar ein darpariaeth gwaith a gefnogir yn hwy nag sy'n angenrheidiol iddyn nhw a'u cyflogwr gyrraedd sefyllfa lle gallant gynnal eu cyflogaeth yn annibynnol. Yn hyn o beth rydym yn edrych ar sut y gallai DEAs weithio gyda'n cwsmeriaid a'n darparwyr i sicrhau bod y cymorth a roddir yn dal yn briodol i anghenion gwaith y cwsmer.

5. Mae DEAs mewn sefyllfa arbennig o dda i edrych ar y cymorth y gall rhywun anabl fod ei angen i fynd i mewn i ac i gadw gwaith yn ei gyfanrwydd. Argymhellodd yr ymgynghoriad wneud gwell defnydd o'r sefyllfa hon, drwy roi mwy o bwyslais ar y rhan sydd gan DEAs i ddatblygu, gyda'u cwsmeriaid, gynlluniau gweithredu o lefel uchel sy'n nodi cyrchnodau allweddol a phrif elfennau cymorth y gall cwsmer eu defnyddio i fynd i mewn i ac i gadw gwaith.

Paratoi cynlluniau gweithredu

6. Bu i ni argymell gwneud cynlluniau gweithredu mewn partneriaeth gyda chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg a rhaglenni hyfforddi lle bo hynny'n briodol. Gall y cymorth hwn fod yn gymysgedd o gymorth arbenigol a/neu yn y prif lif, cymorth mewnol gan y Ganolfan Byd Gwaith neu gymorth allanol yn seiliedig ar ddarparwyr.

7. Er enghraifft, argymhellodd yr ymgynghoriad y gall y DEA benderfynu bod ar gwsmer angen cymorth arbenigol i gael mynediad i waith a'i fod yn hynod o debygol o fod angen rhywfaint o waith gyda chymorth pontio ynghlwm wrtho ac

addasiad parhaus yn ymwneud â Mynediad at Waith. Yna gallai'r pecyn hwn gael ei gyfleu i'r cwsmer, y darparwr a, phan fo hynny'n briodol, cyflogwr. Cyfrifoldeb y darparwr, y cwsmer a'r cyflogwr fyddai datblygu cynllun gwaith manylach.

8. Dylai ymgysylltiad y DEA yn y gwaith o ddatblygu dealltwriaeth uniongyrchol ehangach fwy personol o'r pecyn posibl hwn helpu i hwyluso'r pontio i waith a helpu'r cwsmer i gyflawni ei botensial llawn o ran cyflogaeth.

9. I gydnabod y gall amgylchiadau bywyd rhywun newid, hyd yn oed mewn cyfnod cymharol fyr, credwn y byddai'n bwysig i'r cynlluniau hyn fod yn hyblyg. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau, byddai'r trafodaethau rhwng darparwr, cwsmer ac o bosib cyflogwr yn ddigonol. Byddai angen i DEA gael ei gynnwys dim ond pe bai'r newidiadau yn effeithio ar natur gyffredinol y cymorth a gyflenwid, er enghraifft pe bai cyflwr iechyd cwsmer yn dirywio'n sylweddol ac y byddai'n dod yn amlwg na fyddai'n gallu symud ymlaen i weithio yn gwbl annibynnol o fewn yr amserlenni a gytunwyd yn flaenorol.

I grynhoi

10. O'r dechrau, byddai DEAs yn blaenoriaethu dwyn ynghyd becyn cymorth mwy cynhwysfawr – gan feddwl yn fwy gweithredol ynglŷn â'r ystod lawn o gymorth a fyddai'n angenrheidiol i helpu cwsmer i fynd i waith cynaliadwy. Yn hytrach na newid sylfaenol, byddai hyn yn cyflwyno arfer gorau fel nodwedd safonol sydd eisoes yn cael ei ymarfer gan lawer o DEAs.

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 15 – Rydym yn argymell mai dim ond Ymgynghorwyr Gwaith i Bobl Anabl y Ganolfan Byd Gwaith fyddai'n gallu cyfeirio unigolion at y rhaglen newydd arfaethedig. Beth yw eich barn ynglŷn â'r argymhelliad hwn?

Cwestiwn 16 – Ydych chi'n credu y dylai DEAs fod â swyddogaeth gyda phroffil uwch i bobl roi adborth ynglŷn â'r cymorth a dderbyniant o'n darpariaeth a ddarperir yn allanol?

Cwestiwn 17 – Os ydych wedi defnyddio gwasanaeth DEA y Ganolfan Byd Gwaith i'ch helpu i ddod o hyd i neu i gadw gwaith addas, pa agweddau o'r gwasanaeth yr ydych yn eu hoffi ac a oes unrhyw agweddau y credwch y gellid eu gwella?

Cwestiwn 18 – Fel cyflogwr neu ddarparwr ein gwasanaethau, ym mha ffyrdd, os o gwbl, yr ydych yn defnyddio gwasanaeth DEA y Ganolfan Byd Gwaith ar hyn o bryd i'ch helpu i gyflogi neu gadw pobl anabl mewn gwaith? Pa agweddau o'r gwasanaeth yr ydych yn eu hoffi ac a oes unrhyw agweddau y credwch y gellid eu gwella?

Eich ateb:

Roedd ymateb cymysg i p'run ai DEAs yn unig ddylai allu cyfeirio unigolion at raglen newydd. Roedd DEAs y Ganolfan Byd Gwaith a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gwbl gefnogol i hyn, tra roedd ymatebion gan unigolion yn tueddu i fod yn fwy cymysg, gyda'u profiadau o ymdrin â DEAs yn flaenorol yn dylanwadu ar eu barn.

parhad

Roedd barn darparwyr gwasanaeth cyfredol hefyd yn tueddu i fod yn fwy cymysg gyda llawer yn teimlo er y gallai DEAs fonitro atgyfeiriadau na ddylid dileu'r cyfleuster i hunangyfeirio ac i ddarparwyr atgyfeirio fel rheol gyffredinol. Roedd llawer hefyd yn gefnogol i sicrhau bod sefydliadau eraill fel Gwasanaethau Cymdeithasol, gwasanaethau'r GIG a sefydliadau arbenigol i bobl anabl yn gallu atgyfeirio. Roedd hyn yn fwy amlwg ymhlith y rhai hynny oedd yn gweithio gyda phobl gydag anableddau iechyd meddwl, a awgrymodd na fyddai llawer yn mynd at/cysylltu â swyddfa Canolfan Byd Gwaith ac felly na fyddent yn dod i gysylltiad â gwasanaethau'r DEAs.

Tynnodd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion sylw at y ffaith hyd yn oed pe baent yn cefnogi'r DEA fel yr unig un y byddai atgyfeiriad yn cael ei wneud ganddo, y byddai hyn yn gweithio dim ond pe bai cynnydd yn nifer y DEAs, pe baent yn cael gwell hyfforddiant a phe bai newid yn y modd yr oedd DEAs yn cael eu gwerthfawrogi o fewn busnes y Ganolfan Byd Gwaith. Roedd teimlad y dylai DEAs fod â phroffil uwch a strwythur gyrfa gyda chyflog gwell i adlewyrchu pwysigrwydd eu swyddogaeth.

Adlewyrchwyd y pwyntiau hyn hefyd mewn ymatebion i a ddylai'r DEA fod â phroffil uwch i bobl roi adborth iddynt ynglŷn â'u profiadau am y ddarpariaeth newydd. Roedd y mwyafrif yn gefnogol i'r awgrym hwn ac yn tynnu sylw at y goblygiadau o ran adnoddau a phryderon ynglŷn â'u hannibyniaeth. Ni fyddai rhai pobl yn teimlo'n gysurus yn anfon beirniadaeth o'r Ganolfan Byd Gwaith neu'r DWP yn ôl drwy lwybr o'r fath.

parhad

Wrth ymateb i'r cwestiynau am y defnydd blaenorol o wasanaethau'r DEA, roedd enghreifftiau cadarnhaol a negyddol. Roedd y rhain unwaith eto yn tynnu sylw at bryderon ynglŷn â goblygiadau'r argymhellion o ran adnoddau ac roedd hyn yn effeithio ar p'run ai oedd ymatebwyr yn gadarnhaol neu yn negyddol am yr awgrymiadau.

Yn benodol, dywedasoch:

"Mae manteision i hyn yn nhermau bwrw golwg gyffredinol ar y rhaglen a sicrhau bod darparwyr yn cyflogi pobl yn briodol. Ond byddai gennym bryderon ynglŷn ag unigolion yn gallu cyrchu at ddarpariaeth drwy'r DEA yn unig. Mae pobl yn darganfod y gall gwasanaethau drwy lwybrau gwahanol a darparwyr yn y trydydd sector, er enghraifft, fod yn well am gyrraedd rhai pobl na'r DEAs – mae'n hanfodol i'r DEA beidio â dod yn rhwystr i gyrchu at y gwasanaeth. Efallai y gallai'r DEA gymeradwyo mynediad i'r rhaglen, er y byddai'n bwysig peidio â gofyn am ddim mwy o asesu a biwrocratiaeth nag a fyddai'n angenrheidiol."
(*Mind*)

parhad

"Byddai Mencap yn cytuno gyda'r egwyddor o gael y DEA yn gweithredu fel 'porth' ar gyfer atgyfeiriadau, er bod rhai problemau gwirioneddol ynglŷn ag adnoddau. Ni fydd llawer o bobl sydd ag anabledd dysgu yn cysylltu â Chanolfan Byd Gwaith ac yn eu tro â DEA. Pan wnaethom ymgynghori gyda phobl gydag anabledd dysgu gan ddefnyddio gwasanaethau cyflogi Mencap, dywedodd dros eu hanner nad oeddent wedi mynd i'w canolfan waith leol i chwilio am swydd cyn cysylltu â Mencap. Ar hyn o bryd, os yw unigolion yn cysylltu'n uniongyrchol ag un o'n gwasanaethau cyflogaeth, mae Mencap yn cysylltu â'r DEA perthnasol. Dylid darparwyr allu parhau i wneud hyn neu wynebu'r perygl y gallai unigolion gael eu hallgau gan y symudiad hwn."
(*Mencap*)

"Mae Mencap yn cefnogi'r argymhelliad am swyddogaeth gyda phroffil uwch i'r DEA. Ond mae problem sylweddol ynglŷn ag adnoddau os nad oes adnoddau pellach i gael eu buddsoddi yn y swyddogaeth. Mae angen mwy o fuddsoddi yn nhermau ymdrin â materion ynghylch niferoedd staff a hyfforddiant cyfyngedig."
(*Mencap*)

"Dylai DEAs barhau i gymeradwyo cymhwyster ar gyfer mwyafrif yr atgyfeiriadau newydd. Ond dylai canran o atgyfeiriadau fod ar gael ar gyfer atgyfeiriad uniongyrchol drwy lwybrau gofal iechyd a gofal cymdeithasol lleol."
(*Cymdeithas Brydeinig dros Gyflogaeth â Chynhorthwy – BASE*)

"Gallai DEAs ddarparu porth cyntaf defnyddiol iawn ar gyfer yr holl adborth ynglŷn â phrofiadau cleientiaid. Byddai'n rhaid i unrhyw adborth gael ei roi o dan amodau cwbl gyfrinachol gyda chanllawiau clir."
(*RNID*)

parhad

"Mae sicrhau y gall pawb gyrchu at y gwasanaethau priodol ar gyfer eu hanghenion yn rhan hanfodol o'r diwygiad hwn, ond bydd angen i rôl allweddol y DEA o ran darparu cymorth wedi ei ffocysu i'r rhai hynny sydd ei angen gael ei gynnal, a rhaid rhoi adnoddau a chymorth digonol ar ei gyfer."
(*Swyddfa Materion Anabledd – ODI*)

"Rhaid i'r dewis o atgyfeiriad a darparwr fod yn fater i'r unigolyn anabl gyda chymorth gan y DEA."
(*Undeb Gwaith a Gefnogir yr Alban – SUSE*)

"Mae gan ERSA bryderon ynglŷn â'r cynnig hwn. Er bod y DEA yn darparu swyddogaeth werthfawr wrth nodi darpariaeth briodol, maent hefyd yn borth i wasanaethau. Mae aelodau wedi tynnu sylw at y ffaith fod DEAs mewn rhai ardaloedd yn gweithio ar sail ran-amser ac yn ystod y tymor yn unig ac nad oes pobl i weithio yn eu lle dros y gwyliau neu pan fônt ar absenoldeb salwch. Mewn rhai ardaloedd mae hyd at 8 wythnos o amser aros am apwyntiad gyda DEA, ac oherwydd eu pwysau gwaith maent yn aml yn methu ag ateb galwadau ffôn."
(*Cymdeithas Gwasanaethau yn Gysylltiedig â Chyflogaeth – ERSA*)

"Dylai'r DWP ddatblygu system adborth ar-lein ac ar bapur lle gall cwsmeriaid gofnodi eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth a dderbyniant. Gallai'r DEA wneud y cwsmer yn ymwybodol o'r llwybrau adborth eraill hyn pe na baent yn barod i wneud hyn yn bersonol."
(*Cymdeithas Gwasanaethau yn Gysylltiedig â Chyflogaeth – ERSA*)

"Mae RNIB yn cefnogi'r swyddogaeth hon ond dim ond os oes trefn archwilio ffurfiol yn ogystal i gefnogi hyn."
(*RNIB*)

parhad

"Byddai hyn yn ffordd hynod effeithiol o fonitro perfformiad darparwyr ar lefel leol mewn dull annibynnol."
(*Scope*)

"Mae Anabledd Leonard Cheshire yn cefnogi rhoi mwy o swyddogaeth i DEAs fel y rhagwelwyd, ond er mwyn i'r swyddogaeth hon weithio bydd angen i DEAs gael gwybodaeth a hyfforddiant helaeth iawn ac i'r holl gyfleusterau a systemau fod yn gwbl hygyrch i bob unigolyn anabl."
(*Anabledd Leonard Cheshire*)

Sut mae'r Llywodraeth yn dwyn hyn yn ei flaen

11. Un o gyrchnodau'r rhaglen newydd yw sicrhau mai dim ond y rhai hynny sydd angen y ddarpariaeth all gyrchu ati. Rydym yn ystyried sylwadau o'r ymgynghoriad ynglŷn â'r mecanweithiau atgyfeirio a byddwn yn trafod trefniadau yn ystod cyfres o ddigwyddiadau gyda chwsmeriaid, cyflogwyr, darparwyr a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Pennod Pump – Mynediad at Waith

Rhagarweiniad

1. Roedd yr ymgynghoriad yn cydnabod mai Mynediad at Waith yw un o'n rhaglenni marchnad lafur mwyaf poblogaidd a llwyddiannus. Ynghyd â gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen, gofynnwyd am farn ynglŷn â sut y gellid ei gwella ymhellach.

Sefyllfa gyfredol

2. Mae'r rhaglen Mynediad at Waith yn anelu at gwtogi ar anghyfartaleddau rhwng pobl anabl a phobl heb fod yn anabl drwy ddileu rhwystrau ymarferol i waith.

3. Pedair prif elfen y cymorth sydd ar gael o dan Mynediad at Waith yw:

   - cymhorthion ac offer arbenigol;
   - addasiadau i eiddo ac offer;
   - gweithwyr cymorth/cymorth i gyfathrebu mewn cyfweliad; a
   - theithio i waith, a all gynnwys cymorth gyda phrisiau tacsi.

4. Roedd yr ymgynghoriad yn sylweddoli bod Mynediad at Waith yn cael ei gydnabod fel un sydd â llu o gryfderau sy'n galluogi'r rhaglen i ddarparu cymorth i gwsmeriaid anabl. Mae hyn yn cynnwys:

   - cymorth wedi ei deilwrio – mae pob pecyn cymorth yn cael ei deilwrio i ofynion penodol pob cwsmer a'i gyflogwr;
   - cymorth hyblyg – mae'r pecynnau cymorth yn cyd-fynd â'n darpariaeth arall, sy'n gallu addasu i amgylchiadau sy'n newid ac sy'n addas i bobl a/neu swyddi sydd angen defnyddio'r cymorth yn ysbeidiol neu yn achlysurol;
   - cyngor arbenigol – i lawer o gyflogwyr y ffaith fod cyngor arbenigol ynglŷn â gwneud addasiadau i'r gweithle ar gyfer eu staff anabl ar gael yw nodwedd fwyaf gwerthfawr y rhaglen; a
   - dim ffin ariannol uchaf ar becynnau cymorth unigol.

5. Ond codwyd rhai pryderon gan gwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ynglŷn â pherfformiad Mynediad at Waith. Yn bennaf mae'r pryderon hyn wedi bod yn ymwneud â chyflenwi ar y llinell flaen, gan gynnwys:

   - y cyflymder o ran derbyn pobl i dderbyn cyngor;
   - y cyflymder o ran cyflenwi'r cymorth;
   - cysondeb y gwaith o lunio penderfyniadau ar draws y wlad; ac
   - ystod y ddarpariaeth – h.y. lefelau ymwybyddiaeth ac a fedrwn helpu mwy o bobl?

6. Cydnabu'r ymgynghoriad fod y Ganolfan Byd Gwaith eisoes yn gweithredu cyfres o ddiwygiadau cynyddol a chadarnhaol i wella'r modd y cyflenwir gwasanaeth, gan gynnwys er diwedd 2006, penodi Rheolwr Cyflenwi Cenedlaethol Mynediad at Waith. Credwn fod y diwygiadau hyn eisoes wedi gwella cyflymder, ansawdd a chysondeb y gwasanaeth y mae pobl yn ei dderbyn a disgwyliwn y bydd hyn yn parhau.

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 19 – Os oes gennych brofiad diweddar o'n darpariaeth Mynediad at Waith, pa agweddau y gwnaethoch eu hoffi fwyaf ac a oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth?

Cwestiwn 20 – Beth allwn ni ei wneud i sicrhau bod Mynediad at Waith yn cael ei ddefnyddio yn fwy effeithiol i fodloni anghenion unigolion?

Cwestiwn 21 – Sut y byddech yn ceisio cydbwyso'n well yr angen am gysondeb yn y gwaith o lunio penderfyniadau o fewn Mynediad at Waith ar draws y wlad gyda manteision hyblygrwydd lleol?

Cwestiwn 22 – Sut y gallwn ffocysu Mynediad at Waith yn fwy effeithiol ar addasiadau/cymorth y tu hwnt i'r rhai y dylai cyflogwyr eu gwneud fel addasiad rhesymol o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd?

Cwestiwn 23 – A ydych yn credu y dylem gynyddu cyfraniadau cyflogwr at addasiadau Mynediad at Waith cyn belled ag y bo'r cynilion yn cael eu hail-fuddsoddi yn y rhaglen?

Cwestiwn 24 – A oes ffyrdd mwy arloesol y gallwn wneud gwell defnydd o'r sector preifat a'r trydydd sector wrth gyflenwi Mynediad at Waith?

parhad

Dywedasoch:

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r rhaglen Mynediad at Waith, gyda llawer o enghreifftiau o ymatebwyr unigol yn dweud ei bod wedi trawsnewid eu bywydau.

Er yn gwerthfawrogi'r cymorth a rydd, fe dderbyniwyd sylwadau beirniadol ac awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid ei gwella. Teimlai llawer fod y broses ar gyfer cael cymorth yn rhy hir a biwrocrataidd. Derbyniwyd awgrymiadau ynghylch cwtogi ar waith papur, caniatáu i gyflogwyr neu eiriolwyr ymgeisio yn hytrach na'r unigolyn, a chaniatáu cais cyn i'r gwaith ddechrau fel y gallai cymorth gael ei gyflwyno o'r diwrnod cyntaf. Roedd llawer hefyd yn dymuno i Fynediad at Waith gael ei ymestyn i gynnwys gwaith gwirfoddol, treialon gwaith/profiad gwaith, cyfweliadau am swyddi a cheisiadau, ac i'r rhai hynny sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos.

Roedd awgrymiadau eraill yn tueddu i fod yn ymwneud ag amhariadau penodol, am offer ac anghenion penodol y grŵp gyda'r amhariad arbennig. Roedd pryder fod cyllidebau yn golygu mai'r offer rhataf, yn hytrach na'r offer gorau neu fwyaf priodol, a oedd yn cael ei gyflenwi ar gyfer anghenion yr unigolion, neu'r cymorth gyda'r cymwysterau mwyaf priodol.

Yr awgrym mawr arall i wella'r rhaglen oedd rhoi cyhoeddusrwydd priodol iddi fel bod cyflogwyr a'r cyhoedd yn ymwybodol ohoni.

parhad

Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol i'r angen am well cysondeb ar draws y wlad a hyblygrwydd lleol. Roedd derbyn natur wrthgyferbyniol hyn yn ei gwneud yn anodd i ymatebwyr gyflwyno atebion ymarferol cadarn. Roedd awgrymiadau i helpu hyn yn cynnwys cyflwyno canllawiau arfer gorau ac enghreifftiau a rheolwr rhanbarthol/ardal i oruchwylio a sicrhau cysondeb, wrth iddo reoli a deall anghenion lleol.

Roedd yna deimlad y gallai'r Adran weithio'n well gyda chyflogwyr i'w hyrwyddo a'u hyfforddi ynghylch yr hyn sy'n addasiad rhesymol o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Yr Adran fyddai yn y sefyllfa orau i gasglu enghreifftiau o arfer gorau a darparu canllawiau i gyflogwyr. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys sioeau teithiol i gyflogwyr o amgylch y wlad ac adnodd staff penodol i hyrwyddo'r rhaglen i gyflogwyr.

Yn benodol dywedasoch:

"Disgrifiwyd y cynllun Mynediad at Waith gan Siambr Fasnach Prydain fel 'un o'r cyfrinachau a gadwyd orau yn y Llywodraeth.' Dylid cynyddu cyllid ar gyfer Mynediad at Waith gyda'r bwriad o ddarparu mwy o lwybrau i waith i bobl gydag anabledd dysgu, yn arbennig o ystyried polisi'r Llywodraeth o symud 1 miliwn o bobl anabl i mewn i waith."
(*Mencap*)

parhad

"Mae DEAC yn parhau i argymell y dylai Mynediad at Waith gael ei ymestyn i bobl anabl sy'n cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol, yn arbennig oherwydd bod gwirfoddoli wedi ei nodi fel llwybr pwysig i waith i bobl gydag anableddau dysgu."
(*Pwyllgor Ymgynghorol Gwaith i'r Anabl/DEAC*)

"Dylai'r rhaglen newydd roi gwerth ar waith gwirfoddol neu lai na gwaith rhan amser (llai nag 16 awr yr wythnos) fel canlyniad dilys."
(*RADAR*)

"Dylid darparu cymorth i gyflogwyr i ddeall beth yw cyfrifoldeb cyflogwr o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a beth y bydd Mynediad at Waith yn ei gyllido... dylai'r DWP adnabod cyflogwyr da fel 'hyrwyddwyr' arfer gorau."
(*Mencap*)

"Gallai Mynediad at Waith gael ei wella drwy gael ei hysbysebu yn ehangach, yn arbennig i bobl anabl a busnesau bach a chanolig. Dylid cwtogi ar amserau aros am asesiadau a darpariaeth a sicrhau bod asesiadau Mynediad at Waith yn cael eu cyflawni cyn i rywun ddechrau gweithio fel bod ganddynt y cymorth, yr offer neu'r addasiadau angenrheidiol o'r diwrnod cyntaf a fyddai hefyd yn ei wneud yn fwy effeithiol."
(*Scope*)

parhad

"Mae Mynediad at Waith yn gynllun sy'n mwynhau lefel o gefnogaeth nas gwelwyd o'r blaen ymhlith sectorau gwahanol. Mae'n sicr yn cael ei werthfawrogi gan y rhai sy'n elwa ohono yn uniongyrchol, a chan fusnesau sy'n gallu rhoi gwell cymorth i'w gweithwyr drwy'r cynllun. Mae'n cael ei ganmol yn gyson gan sefydliadau anabledd, sydd er yn cydnabod bod meysydd lle gellid gwneud gwelliant yn bodoli o hyd, hefyd yn gallu cydnabod y cymorth hanfodol y gall ei gynnig."
(*Anabledd Leonard Cheshire*)

"Mae nifer o sefydliadau wedi cynhyrchu canllawiau i gyflogwyr a busnesau am gyfrifoldebau'r Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Ond er bod canllawiau a gwybodaeth ar gael efallai y byddai'n werth i'r DWP ymchwilio a allai rhywfaint o'r wybodaeth hon gael ei chasglu'n ganolog a'i chydlynu i gynhyrchu pecyn adnoddau cyffredinol a allai gynnig cyngor clir i gyflogwyr."
(*Anabledd Leonard Cheshire*)

"Mae RNID yn credu mai'r Cynllun Mynediad at Waith yw'r ymyrraeth newydd, gyfredol mwyaf llwyddiannus i ganiatáu i bobl anabl ennill a chadw gwaith taledig, a hoffai weld mwy o fuddsoddiad mewn rhaglen a brofwyd i fod o fudd net i economi'r Deyrnas Unedig...byddai rhaglen Mynediad at Waith yn elwa o fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, lle mae darparu cymorth yn dilyn yr unigolyn."
(*RNID*)

parhad

"Mae RNID yn credu bod lle yma i'r Swyddfa Materion Anabledd hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth am gyfrifoldebau a dyletswyddau cyflogwyr o dan ddeddfwriaeth gyfredol, yn ogystal â swyddogaeth i'r EHRC i ddechrau achosion llys lle mae cyflogwyr wedi methu â'u bodloni."
(*RNID*)

"Ceir edmygedd dwfn i'r egwyddorion a gynhwysir o fewn y rhaglen Mynediad at Waith: ei hyblygrwydd, y ffaith ei bod mor ymatebol i anghenion unigol y cleient, ei chyfraniad at oresgyn gwahaniaethu wrth gyflogi pobl anabl a'r ffaith bod ei chyllideb wedi ei ehangu mewn ymateb i angen a nodwyd."
(*RNIB*)

"Mae RNIB felly wedi bod yn ceisio ehangu meini prawf cymhwyster Mynediad at Waith i gynnwys pobl sydd wedi colli eu golwg sy'n ymwneud â gwirfoddoli...Mae RNIB yn argymell y dylai'r meini prawf cymhwyster gael eu ehangu i gynnwys pobl sy'n gwneud o leiaf 16 awr yr wythnos o waith gwirfoddol am isafswm o 6 mis. Dylid cymhwyso'r bwriad dymunol hwn i ehangu'r meini prawf cymhwyster hefyd at y cyflogwyr sy'n darparu lleoliadau gwaith 13 wythnos neu gyfleoedd ar gyfer cael cyfnod prawf o weithio drwy Bartneriaethau Cyflogaeth Lleol y JCP"
(*RNIB*)

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 25 – Mae Adrannau Gweinidogaethol y Llywodraeth bellach yn cyllido addasiadau Mynediad at Waith ar gyfer eu staff anabl yn uniongyrchol. Beth yw eich barn ynglŷn â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn talu am addasiadau o'r fath pe bai unrhyw gynilion yn cael eu hailfuddsoddi yn y rhaglen?

Eich ateb:

Nid yw mwyafrif yr ymatebwyr yn credu y dylem gynyddu cyfraniadau cyflogwyr at gyllid Mynediad at Waith ac nid yw mwyafrif sydd hyd yn oed yn fwy yn cefnogi mynd â chyllid Mynediad at Waith i ffwrdd oddi wrth sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Er bod rhywfaint o gefnogaeth i'r egwyddor, y teimlad cyffredinol yw y bydd unrhyw faich ariannol cynyddol ar gyflogwyr yn effeithio'n negyddol ar gyflogi pobl anabl a bydd yn cael ei ddefnyddio fel esgus gan gyflogwyr (yn anuniongyrchol) am beidio â chyflogi pobl.

Y teimlad oedd os nad ydym yn dilyn y llwybr o gynyddu cyfraniadau gan gyflogwyr y byddai angen gwneud hynny bob yn dipyn neu fod â lefelau cyfraniadau hyblyg yn dibynnu naill ai ar faint neu ar drosiant y sefydliad. Os yw cyllid Mynediad at Waith yn mynd i gael ei dynnu yn ôl ymhellach oddi wrth sefydliadau yn y sector cyhoeddus, teimlai ymatebwyr y byddai angen i arian i ddarparu'r un lefel o gymorth gael ei neilltuo, a byddent yn dal am sicrhau bod gwasanaethau cynghori Mynediad at Waith ar gael.

parhad

Roedd cefnogaeth i gynnwys sefydliadau preifat a rhai yn y trydydd sector yn y gwaith o gyflenwi Mynediad at Waith, yn fwy penodol wrth lunio asesiadau ac wrth allu bod yn fwy ymatebol ar lefel leol. Ond nid oedd y cymorth hwn yn unfrydol gyda rhai ymatebwyr yn pryderu bod gan sefydliadau sy'n gwneud elw fwy o gysylltiad â'r cynllun.

Roedd cefnogaeth gref i hyrwyddo Mynediad at Waith drwy greu cysylltiadau gyda sefydliadau lleol, fel Partneriaethau Strategol Lleol, Cynghorau Dysgu a Sgiliau, fforymau anabledd lleol, fforymau cyflogwyr ac ati.

Yn benodol, fe ddywedasoch:

"Mae DEAC yn credu y byddai mwy o gyfraniadau gan gyflogwyr at Fynediad at Waith yn gweithredu fel anghymhelliad i'r rhan fwyaf o gyflogwyr. Felly dylai ymchwil ynglŷn ag effaith cyflogi pobl anabl mewn Adrannau Gweinidogaethol (nad ydynt bellach yn gymwys am Fynediad at Waith) gael ei gymryd i ystyriaeth."
(*Pwyllgor Ymgynghorol Gwaith i'r Anabl*)

"Nid yw RADAR yn cefnogi cynyddu cyfraniad Mynediad at Waith y cyflogwr y tu hwnt i chwyddiant. Credwn y gall hyn fod yn anghymhelliad i gyflogi pobl gydag anghenion neu gostau cymorth sylweddol. Nid yw RADAR ychwaith yn cefnogi ymestyn dileu cyllid Mynediad at Waith i'r sector cyhoeddus ehangach neu i gyflogwyr mawr yn y sector preifat."
(*RADAR*)

parhad

"Efallai bod sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithredu fel asiantaethau cymorth mewn sefyllfa dda i gyflenwi asesiadau a dod o hyd i gynorthwywyr personol, cyfieithwyr a phobl i weithio yn lle gweithwyr anabl mewn argyfwng." (*Scope*)

"Gellid gwneud mwy o waith gyda grwpiau lleol o bobl anabl a chyda Phartneriaethau Strategol Lleol i hyrwyddo Mynediad at Waith. Mae cysylltiadau amlwg hefyd drwy Lwybrau at Waith rhanbarthol a chontractau NDDP yn ogystal â thrwy Strategaethau Dinasoedd i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl anabl, cyflogwyr a darparwyr gwasanaeth fel ei gilydd. Mae cyfleoedd hefyd i weithio gyda busnes lleol a Siambrau Masnach i addysgu cyflogwyr am y rhaglen."
(*RNIB*)

Sut mae'r llywodraeth yn gweithredu ynglŷn â hyn

7. Datganodd y Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd yn ddiweddar *Neb yn cael ei anwybyddu: diwygio lles er mwyn gwobrwyo cyfrifoldeb* y byddai cyllideb Mynediad at Waith yn cael ei dyblu. Cynyddir y gyllideb yn gyson (er nad yw'r dyddiad dechrau ar gyfer y cyllid ychwanegol wedi ei gadarnhau eto) a bydd yn £138 miliwn erbyn 2013/2014.

8. Bydd hyn yn ein galluogi i ehangu ystod y rhaglen, gan alluogi i ni sicrhau cyflogwyr, rhai sy'n hawlio budd-dal a phobl sy'n chwilio am gymorth i gadw eu swyddi, y bydd cymorth ar gael i bawb sydd ei angen. Yn ogystal â helpu mwy o bobl, mae'r adnodd ychwanegol hefyd yn rhoi cyfle i wella'r modd y cyflenwir cymorth Mynediad at Waith.

9. Yn ychwanegol at yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn, mae gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen i fod i gyflwyno adroddiad erbyn diwedd eleni, a byddwn yn defnyddio'r darganfyddiadau hyn a'r ymatebion a dderbyniwn i gwestiynau'r ymgynghoriad ynglŷn â Mynediad at Waith yn y Papur Gwyrdd diweddar *Neb yn cael ei anwybyddu: diwygio lles er mwyn gwobrwyo cyfrifoldeb*, i sicrhau y bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei wario yn y dull mwyaf effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys cymryd golwg agos ar gyflenwi'r ddarpariaeth i sicrhau ei bod yn cael ei chyflenwi mewn dull wedi ei phersonoli, sy'n hyblyg ac amserol i'n cwsmeriaid a'n cyflogwyr.

10. Cyhoeddodd y Papur Gwyrdd hefyd ein bwriad i roi hawl i bobl anabl reoli eu bywydau a rhoi'r cymorth angenrheidiol iddynt i fyw yn annibynnol. Byddwn yn ystyried sut y gallai'r hawl newydd wella profiadau gwaith cwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaethau arbenigol ar gyfer gwaith i'r anabl, gan gynnwys Mynediad at Waith.

Pennod Chwech – Materion eraill

Ein cwestiwn:

Cwestiwn 26 – Sut y teimlwch y gallwn wella'r modd y mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio gyda gwasanaethau eraill a gyflenwir yn lleol a/neu drefniadau partneriaeth lleol?

Cwestiwn 27 – Rydym wedi ymrwymo i gynhyrchu Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ynglŷn â'r argymhellion terfynol a byddem yn gwerthfawrogi eich mewnbwn yn y maes hwn. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol ynglŷn ag effaith yr argymhellion a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad hwn ar unigolion neu grwpiau arbennig?

Cwestiwn 28 – Rhowch wybod i ni beth yw eich barn ynglŷn ag unrhyw agwedd arall o'r ymgynghoriad hwn.

Eich ateb:

Roedd mwyafrif helaeth y grwpiau/unigolion penodol y tynnwyd sylw atynt gan ymatebwyr ar gyfer yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn amhariadau/anableddau penodol. Grwpiau eraill y tynnwyd sylw atynt (heblaw'r categorïau arferol sef rhyw, oed a chenedligrwydd) oedd yr hunangyflogedig, gweithwyr rhan-amser a'r rhai hynny mewn busnes/ffatrïoedd a gefnogir.

parhad

Yn gyffredinol roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol ac roedd yr ymatebwyr yn falch o fod wedi cael y cyfle i gyfrannu. Teimlai nifer o ymatebwyr fod yr ymgynghoriad wedi methu ag ymdrin â nifer o feysydd: hunangyflogaeth fel dewis, pwysigrwydd cadw gwaith, gweithio gyda chyflogwyr, y cyswllt gyda rhaglenni eraill fel y Fargen Newydd a Chynlluniau Peilot Budd-dal Analluogrwydd a materion penodol yn ymwneud â grwpiau o amhariadau.

Roedd nifer o ymatebion hefyd yn tynnu sylw at yr angen am fwy o gysylltiadau gyda'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a hefyd gwell cysylltiadau â'r gwasanaethau addysg (LSC a Connexions) i gynorthwyo'r grŵp oed 16 i 19. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw hefyd at y defnydd o gyllidebau wedi eu teilwrio i'r unigolyn.

Teimlai llawer o ymatebwyr hefyd y dylid bod wedi rhoi mwy o sylw i ddileu'r rheol 16 awr, a'r cyfyngiadau ar gael Mynediad at Waith ar gyfer gwaith gwirfoddol a threialon gwaith.

Roedd yr anhapusrwydd mwyaf ynglŷn ag ail-gontractio a'r symudiad tuag at ddarparwyr mwy yn ymwneud â phob anabledd yn ymdrin â rhanbarthau cyfain ac yn is-gontractio i ddarparwyr llai. Roedd y grwpiau anabledd arbenigol yn arbennig yn bryderus iawn am y goblygiadau.

parhad

Yn benodol dywedasoch:

"Dylai swyddogaeth y Gwasanaethau Arbenigol ar gyfer Gwaith i'r Anabl gynnwys mwy o gyfrifoldebau ar gyfer gweithio gyda chyflogwyr i agor cyfleoedd mwy a gwell i bobl anabl gael gwaith."
(*Pwyllgor Ymgynghorol Nawdd Cymdeithasol*)

"Mae Cam at Waith ar gael i bobl mewn gwaith taledig o 16 awr yr wythnos neu fwy yn unig, sy'n allgau niferoedd mawr o bobl gydag anabledd dysgu difrifol nad ydynt efallai yn gallu gweithio'r nifer hwn o oriau neu a all fod angen hwb ymlaen i'w helpu i waith amser llawn...hoffai Mencap gael sicrwydd yr ymdrinnir â'r mater hwn i sicrhau nad yw'r rhai gydag anawsterau dysgu mwy difrifol yn cael eu hallgau o'r ddarpariaeth newydd."
(*Mencap*)

"Rhaid i DWP ystyried sut y bydd y ddarpariaeth newydd yn darparu ar gyfer cwsmeriaid gydag anghenion mawr am gyngor sy'n methu â gweithio am fwy nag 16 awr yr wythnos. Byddai ERSA yn argymell bod y ddarpariaeth newydd ar agor i gwsmeriaid sy'n gallu gweithio 8 awr neu fwy yr wythnos ac sydd angen cymorth mewn gwaith ac y dylai'r rhain gael eu cynnwys o fewn y ddarpariaeth arbenigol."
(*Cymdeithas Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Gwaith - ERSA*)

parhad

"Rhaid i'r DWP ganolbwyntio hefyd ar gadw swyddi fel mesur ataliol i atal unigolion rhag dod allan o'r farchnad lafur yn y lle cyntaf drwy ddarparu cymorth iddyn nhw a'u cyflogwr."
(*Cymdeithas Gwasanaethau sy'n Gysylltiedig â Gwaith – ERSA*)

"Mae Cam at Waith ar gael ar hyn o bryd i bobl anabl mewn gwaith taledig o 16 awr yr wythnos neu fwy yn unig, sy'n allgau niferoedd mawr o bobl anabl. Byddai Scope yn annog y DWP i sicrhau y gall hyd yn oed mwy o bobl anabl elwa ar Gam at Waith drwy gwtogi ar yr oriau isafol a weithir bob wythnos."
(*Scope*)

"Mae sicrhau y cefnogir pobl anabl nid yn unig i gael gwaith ond hefyd i'w gadw, yn rhan hanfodol o wasanaeth cyflogaeth effeithiol a gefnogir. Mae gweithredu i gwtogi ar nifer y bobl sy'n syrthio allan o waith yn hanfodol os ydym yn mynd i osgoi'r ffaith bod pobl anabl yn cael eu hailgylchu drwy JIS, Paratoi at Waith a Cham at Waith drosodd a throsodd."
(*Scope*)

"Rydym yn bryderus mai ychydig o sylw a roddir i gefnogi pobl anabl wrth iddynt adael addysg a symud i waith."
(*Cydraddoldeb 2025*)

Sut mae'r llywodraeth yn gweithredu ynglŷn â hyn

1. Mae ymatebwyr wedi rhoi llawer o awgrymiadau defnyddiol iawn ynglŷn â sut y gellir gwella ein gwasanaethau i bobl anabl sy'n profi rhwystrau i fynd i mewn i a symud ymlaen mewn gwaith.

2. Bydd Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar gael ar-lein yn fuan yn www.dwp.gov.uk/resourcecentre/des-consultation.asp

3. Byddwn yn parhau i weithio ar draws y Llywodraeth, gyda gweinyddiaethau wedi datganoli, darparwyr, cwsmeriaid, cyflogwyr a grwpiau sy'n cynrychioli'r anabl i ddatblygu ein gallu i fodloni anghenion a dyheadau pobl ymhellach. Yn wir, rydym yn bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau dros yr ychydig fisoedd nesaf gyda'r grwpiau hyn o bobl, i ymgynghori ymhellach ynglŷn â dyluniad y rhaglen newydd yn arbennig.

Casgliad

Y casgliad

1. I grynhoi, rydym am gyrraedd sefyllfa lle mae gan ein holl gwsmeriaid anabl fynediad at y lefel briodol o gymorth i'w helpu i baratoi ar gyfer, mynd i mewn i a/neu i gadw gwaith. Fel rhan o hyn dymunwn:

    - wella gallu ein darpariaeth i helpu pobl anabl i fynd i mewn i waith cynaliadwy;
    - sicrhau bod ein darpariaeth arbenigol ar gyfer pobl anabl yn cael ei chadw ar gyfer y rhai hynny nad yw eu hanghenion am gymorth yn cael eu bodloni gan ein darpariaeth arall;
    - sicrhau bod ein rhaglenni wedi eu targedu'n well at anghenion unigol i bobl anabl a chyflogwyr, i wella ein gallu i helpu pobl anabl i fyw bywydau cyflawn ac annibynnol; a
    - chyflenwi rhaglen a fydd yn cefnogi ac yn gyflenwol i wasanaethau anarbenigol fel Llwybrau at Waith a'r Fargen Newydd Hyblyg, gan ddarparu sicrwydd i gwsmeriaid presennol tymor hir a helpu pobl gydag anableddau mwy difrifol/cymhleth i gael gwaith cynaliadwy.

Atodiadau

Atodiad A – Rhestr o sefydliadau a ymatebodd

A4E Gweithredu ar gyfer Cyflogaeth

Gofal Gwasanaethau Cymdogaeth Cyngor Dinas Aberdeen (De)

Cymdeithas Mynediad

Ymgynghorwyr Anabledd Gwneud Mynediad yn Hawdd

Canolfan Addysg Niweidiau wedi eu Caffael i'r Ymennydd: Coleg Evesham a Malvern Hills

Gweithredu dros y Deillion

Sefydliad Dyslecsia i Oedolion

Mencap Andover a'r Cylch

Cymdeithas Swyddogion Proffesiynol Anabl

Cymdeithas Gwasanaeth Ymgynghorol Gyrfaoedd Graddedig

Cymdeithas Dehonglwyr Iaith Arwyddion

Mentrau Elusennol Azure

Consortiwm Canolfan Byw Annibynnol, Integredig a Chynhwysol Barking a Dagenham

Beacon Employment

Canolfan Ddydd Bentley – Cyngor Sir Surrey

Best Ltd

BID Gwasanaethau i'r Byddar

Prifysgol Dinas Birmingham – Adnoddau Dynol

Colegau Bloomsbury

Grŵp Hunaneiriolaeth Bognor a Chichester ar gyfer Pobl gydag Anableddau Dysgu

Gwasanaeth Cyflogaeth a Gefnogir Breakaway Lewes

Breakthrough

Bridge Employment

Pontio'r Bwlch

Cymdeithas Brydeinig dros Gyflogaeth â Chynhorthwy – BASE

Cwmni Darlledu Prydeinig – Canolfan Amrywiaeth

Cymdeithas Brydeinig dros Feddyginiaeth Adsefydlu

Business Ability Ltd

Ymgynghoriaeth Busnes, Cyflogaeth ac Anabledd

Prifysgol Chirst Church Caergaint

Prifysgol Caerdydd

Partneriaeth Gwella Gwasanaethau Gofal

Gyrfaoedd yr Alban

CEiS

CIFAS

Cyngor i Ddinasyddion: Anabledd a Budd-daliadau Pobl Hŷn a'r Gronfa Gymdeithasol

Dinas a Sir Abertawe

City Lit

Cyngor Dosbarth Metropolitan Dinas Bradford – Gwasanaeth Sgiliau ar gyfer Gwaith

Cyngor Dinas Caeredin: Tîm Gwaith a Gefnogir, Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dinas Caerefrog

City Parochial Foundation

Prifysgol y Ddinas Llundain

Rhwydwaith Anabledd y Gwasanaeth Sifil

Clarity Employment for Blind People

Clear Links Support Ltd

Undeb Gweithwyr Cyfathrebu

Darparwyr Gofal Cymunedol yr Alban

Gwasanaeth Cymunedol Niweidiau i'r Pen 'Working Out' – Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Swydd Buckingham

Undeb Community

Cymdeithas Cernyw dros y Byddar a'r Trwm eu Clyw

Cyngor Sir Cernyw

Prifysgol Coventry

Ymgynghoriaeth Crispin

Cymdeithas y Plant Byddar

Canolfan Ymchwil i Fyddardod, Gwybyddiaeth ac Iaith, Coleg y Brifysgol Llundain

Rhwydwaith Cymorth ar gyfer Byddardod

Cyngor Sir Ddinbych (darparwr Cam at Waith ar gyfer)

Is-Grŵp Lles at Waith Swydd Derby y Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau

Dering Employment Services Ltd

Cyngor Sir Dyfnaint

Gweithredu dros yr Anabl

Cynghrair Pobl Anabl

Pwyllgor Ymgynghorol Gwaith i Bobl Anabl

Ffederasiwn Modurwyr Anabl

GIG Doncaster: Grŵp Llywio Llwybrau at Waith

Cyngor Sir Dorset – Gwasanaethau Galwedigaethol

Cymdeithas Syndrom Down

Adran Cynhwysiant Cymdeithasol Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Cyngor Sir Durham

Prifysgol Edge Hill Ormskirk – Adnoddau Dynol

Fforwm Cyflogwyr ynghylch Cyfleoedd Gwaith i'r Anabl

Cymdeithas Gwasanaethau yn Gysylltiedig â Chyflogaeth – ERSA

Employment Support and Retraining Agency Ltd

ENABLE yr Alban

Enham

Enterprise Mentoring Ltd

Gweithredu dros Epilepsi

Epilespi yr Alban

Equal Ability CIC

Mynediad Cyfartal at Waith Glasgow

Cydraddoldeb 2025

Comisiwn Cydraddoldeb Hawliau Dynol

Uned Her Cydraddoldeb

Erskine – Gofalu am ddynion a merched a fu yn y Lluoedd

Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Cyngor Fife – Tîm Cyflogadwyaeth Fife

Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Fife – Rhwydwaith Cyflogadwyaeth Fife

Coleg Hyfforddi Finchale

Sefydliad Pobl gyda Anableddau Dysgu

Cyngor Dinas Glasgow

Gwasanaethau Diwydiannol Swydd Caerloyw – Cyngor Sir Caerloyw

Undeb GMB

Gofal Cymru

Grŵp dros Gyfreithwyr gydag Anableddau

Cyngor Sir Hamshire

Cynghrair Hansel

Headway UK

Consortiwm Cam at Waith Blindcraft yr Ucheldiroedd

Cyngor yr Ucheldiroedd

Bwrdd Partneriaeth Dysgu ar gyfer Pobl Anabl Hull

Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth

Ymgyrch y Byddar Islington

Coleg John Wheatley

Sefydliadau Addysg Uwch ar y Cyd Dwyrain Canolbarth Lloegr

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Caint

Key4Learning Ltd

KeyRing

Partneriaid Iechyd KMG

Gwasanaeth Cymorth tuag at Waith Cyngor Sir Caerhirfryn

Byrddau Partneriaeth Lleol Swydd Gaerhirfryn/Grwpiau Tasg Chorley/De Ribble a Gorllewin Swydd Gaerhirfryn

Cyngor Dysgu a Sgiliau

Partneriaeth Anabledd Dysgu – Swydd Caergrawnt

Tasglu Anabledd Dysgu

Prosiect Cynnwys Leeds

Gwasanaethau Dydd Cyngor Dinas Caerlŷr (drwy Mencap)

Anabledd Leonard Cheshire

Anabledd Leonard Cheshire (yr Alban)

Cyngor Sir Swydd Lincoln

Prifysgol John Moores Lerpwl

Bwrdeistref Barking a Dagenham

Asiantaeth Datblygu Llundain: Grŵp Cydraddoldeb Anabledd Annibynnol

Cytundeb Cyflogwyr Llundain

Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel

Coleg Lowestoft

Ymgyrch Gwneud eich Nod

MCCH Society Ltd

Mencap

Meridian East

Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful

Mind

Ymddiriedolaeth MS

Undeb yr Athrawon NASUWT

Cymdeithas Genedlaethol Pobl sydd wedi mynd yn Fyddar

Cymdeithas Genedlaethol Ymarferwyr Pobl Anabl

Cymdeithas Awtistig Cenedlaethol

Rhaglen Cynhwysiant Gymdeithasol Genedlaethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot

Grŵp Tasg Cyfeiriadau Newydd Salford

Cyngor Sir Newcastle – Gwasanaethau i Oedolion

Cynhyrchion Newco a Chyflogaeth a Hyfforddiant Newco

Cyflogwyr y GIG

NIACE

Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai i Oedolion

Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog

Cyngor Sir Nottingham – Adran Gofal Cymdeithasol ac Iechyd i Oedolion

Cymdeithas y Byddar Swydd Nottingham

Swyddfa Materion i Bobl Anabl – ODI

Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Oldham – Hyfforddi i Waith

Open Assembly @ Genesis, Fforwm Defnyddwyr Gwasanaeth Iechyd Meddwl Dinas Caerlŷr

Y Brifysgol Agored – Adnoddau Dynol

Osel Enterprises Ltd

Ymddiriedolaeth Papworth

Cymdeithas Clefyd Parkinson

Passionate about BSL

Adran Cydraddoldeb, Iechyd a Diogelwch PCS

Grŵp Datblygu Pertemps People

Pluss

Progress Recruitment Ltd

Quarriers Voluntary Support Organisation

Asiantaeth Cyflogaeth Quest

RADAR

Coleg Dylunio a Chyfathrebu Ravensbourne: Adnoddau Dynol

Pobl yn Gyntaf RhCT

Reed mewn Partneriaeth

REMPLOY

Rethink

Ymgynghoriaeth RH

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cymrodoriaeth Richmond

RNIB

RNID

Royal Blind

Sefydliadau'r Llyng Brydeinig Frenhinol – RBLI

Fforwm Anabledd Rugby

Canolfan Sainsbury dros Iechyd Meddwl

Gwaith a Gefnogir Salford

Scope

Fferderasiwn Cenedlaethol yr Alban dros les y Deillion

Undeb yr Alban dros Waith a Gefnogir – SUSE

Partneriaeth Cydraddoldebau Sefton

Sense

Ymddiriedolaeth Shaw

Sign Translate Ltd

Signalong

Skgil: Biwro Cenedlaethol i Fyfyrwyr gydag Anabledd

Grŵp Skillnet

Social Firms UK

Pwyllgor Ymgynghorol Nawdd Cymdeithasol

Cymdeithas Cyfreithwyr gyda Nam ar eu Golwg

Cyngor Sir Gwlad yr Haf

Consortiwm De Cymru o Asiantaethau Gwaith a Gefnogir

Speaking Up Group – Tunbridge Wells

Cymdeithas Anafiadau i'r Asgwrn Cefn

Cyngor Sir Stafford

Cyngor Dinas Stoke on Trent: Gwasanaethau Lleoliadau a Gwaith a Gefnogir

Tân ac Achub Strathclyde

Clymblaid Surrey o Bobl Anabl

Surrey Supported Employment Ltd

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe

Ymddiriedolaeth Terence Higgins

Y Grŵp Gweithredu

Canolfan dros Bolisi Cyhoeddus – Prifysgol Northumberland
The Invisible Workforce
Cymdeithas y Strociau
Y Brifysgol ac Undeb y Coleg
Grŵp Thera o Gwmnïau: Y Cwmni Ansawdd
Cynghrair Anabledd yr Undebau Llafur
Cyngor Trafford
Rhwydwaith Gwybodaeth Pontio
Coleg Treloar
Cynghrair yr Undebau Llafur
UNISON
Ymateb Unedig
Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau
Prifysgol Bolton – Adnoddau Dynol
Prifysgol Canol Caerhirfryn
Prifysgol Dundee
Prifysgol Caerwysg – Undeb Iechyd Galwedigaethol
Prifysgol Glasgow
Prifysgol Swydd Gaerloyw
Prifysgol Swydd Hertford
Prifysgol Hull
Prifysgol Leeds
Prifysgol Manceinion
Prifysgol Rhydychen – Personel a Chyfle Cyfartal
Prifysgol Plymouth

Prifysgol St Andrews

Prifysgol Cymru – Adnoddau Dynol

Prifysgol Wolverhampton

Partneriaeth Gwerthfawrogi Pobl East Riding Swydd Efrog

Veterans of Scotland

Cymdeithas Adsefydlu Galwedigaethol

Gweithredu Gwirfoddol Caerlŷr

Cyngor Sir Warwick

Tîm Cam at Waith

Ffyrdd at Waith

We Think (drwy Mencap)

Cynllun Cymreig dros Waith a Gefnogir

Cymdeithas Awtistig Wessex

Gwasanaeth Cyflogaeth Westcombe

Mentrau Whitehouse: Cyngor Sir Suffolk

Grŵp Wise

Gwasanaeth Cymorth Tuag at Waith Wokingham

Work Fit

Gwasanaeth Gwaith a Gefnogir Workline – Cyngor Dinas Sunderland

WorkWAYS

Workwise – Cyngor Calderdale

Grŵp Ymgynghori ynglŷn â Phobl Anabl Swydd Efrog a Glannau Humber

Partneriaeth Ranbarthol Swydd Efrog a Glannau Humber

Atodiad B – Strategaeth Gomisiynu'r DWP – annog y farchnad

Cefndir

1. Cyhoeddwyd Strategaeth Comisiynu a Chôd Ymddygiad y DWP yn Chwefror 2008. Maent yn cyflwyno ein hamcanion i gyflawni newid llwyr yn y modd yr ydym yn cyflenwi rhaglenni diwygio lles. Maent yn amlinellu ein cynlluniau i gyflwyno contractau hwy, a mwy, gyda mwy o gyllid yn seiliedig ar ganlyniadau, sy'n cynnig gwell gwerth am arian i'r trethdalwr ac yn cynnig cyfle i gontractwyr fod yn fwy hyblyg yn y modd y maent yn ymgysylltu â chwsmeriaid.

2. Cyhoeddwyd y Strategaeth yn dilyn ymgynghoriad eang gyda darparwyr presennol a phosibl, gyda rhannau eraill o'r llywodraeth, gyda grwpiau cynrychioliadol, sefydliadau cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â derbyn yr argymhellion gan Freud, Leitch a phapurau allweddol eraill gan gynnwys yr ymatebion i'r ymarferiad ymgynghori. Ystyriodd hefyd yr arfer gorau a gasglwyd yn rhyngwladol o'r Unol Daleithiau, Awstralia a'r Iseldiroedd.

3. Ar hyn o bryd mae'r Adran yn gwario bron i £1 biliwn yn prynu darpariaeth cyflogaeth ac yn Lloegr mae'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd yn cyllido darpariaeth bellach. Mae hyn yn cynhyrchu brithwaith o ddarpariaeth sy'n cynnwys contractau o wahanol feintiau a strwythurau ac sy'n gostus ac yn cymryd llawer o amser i'w rhedeg. Cydnabu'r DWP yr angen i wario'r arian yn gost effeithiol i gael y canlyniad gorau i bob cwsmer ac i gynyddu nifer y bobl yn mynd i waith cyson.

4. Gobeithir y bydd y Strategaeth Gomisiynu yn cyflwyno set o egwyddorion a fydd yn ddigon hyblyg i addasu'r gwahaniaethau yn y math o ddarpariaeth a gynigiwn ac y byddwn yn gallu eu datblygu a'u diwygio i ymdrin ag anghenion darpariaeth yn y dyfodol. Ein huchelgais yw gwneud darpariaeth y DWP yn oleufa ar gyfer nod y Llywodraeth o ddod yn arweinydd byd o ran sgiliau ac wrth ymdrin â chrynodiadau o bobl sydd heb waith ar lefel leol.

Camau nesaf

5. Mae'r Strategaeth Gomisiynu yn garreg filltir fawr yn ein rhaglen diwygio lles ac yn darparu gweledigaeth gynhwysfawr gymhellol o newid chwyldroadol yn y modd y byddwn yn gweithio gyda darparwyr. Bydd yn rhoi llwyfan cryf i ni allu creu dull mwy integredig o gomisiynu a chyflenwi cyflogadwyedd a chymorth i sgiliau yn y dyfodol.

6. Mae'n rhan hanfodol o'r agenda diwygio lles ac yn arbennig o fodloni'r heriau sylweddol o ran cyflawni cyflogaeth lawn mewn cenhedlaeth a dileu tlodi plant.

7. Mae'r strategaeth yn ei hanfod yn disgrifio:

   - y farchnad y dymunwn wneud busnes â hi;
   - sut y nodwn beth yr ydym am ei brynu;
   - y broses prynu; a
   - rheoli perfformiad a'r berthynas barhaus.

8. Mae'n cyflwyno saith cydran y Strategaeth a'r egwyddorion sy'n sail iddynt. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio'r cyfeiriad y credwn mae'n rhaid i ni deithio iddo i gyflawni'r gwelliant angenrheidiol mewn perfformiad a rhoi arwydd ynglŷn â'r newidiadau y bydd angen i holl rannau'r system comisiynu eu gwneud er mwyn gwireddu hyn. Mae hefyd yn disgrifio beth sydd angen i ni ei wneud gydag amser i gyrraedd y sefyllfa honno lle nad yw'n bodoli ar hyn o bryd. Y saith neges allweddol yw:

   - **Strwythur y farchnad**: Rydym am gael sylfaen gryfach a mwy cyson o ddarparwyr o'r haen uchaf i weithio'n agos gyda phartneriaid rhanbarthol ac isranbarthol i gyflenwi swyddi cynaliadwy i bobl ddi-waith.

   - **Datblygiad y farchnad a stiwardiaeth**: Byddwn yn chwarae rhan weithredol a thryloyw i sicrhau y gall darparwyr llai, lleol sydd â'r galluoedd y mae arnom eu hangen ac sy'n perfformio'n dda ffynnu a datblygu.

   - **Galluoedd darparwyr**: Byddwn yn egluro'r galluoedd a'r gofynion penodol sy'n ffurfio cadwyn gyflenwi sy'n perfformio'n dda a darparwr haen gyntaf effeithiol. Byddwn yn contractio, yn archwilio, yn rheoli ac yn ymyrryd ar sail y galluoedd a'r gofynion hyn.

   - **Strategaeth fasnachol**: Byddwn yn creu marchnad gystadleuol gyda chontractau mwy a hwy, gan wobrwyo darparwyr am ganlyniadau parhaus a chwtogi ar gostau'n sylweddol, gan ddefnyddio cystadleuaeth ar sail barhaus fel y sbardun i fwy o effeithiolrwydd.

- **Rheoli perfformiad**: Byddwn yn symud tuag at un dull integredig a rennir a thryloyw o fesur a rheoli perfformiad darparwyr sy'n ei gwneud yn bosibl i wneud dadansoddiad o berfformiad tebyg i debyg.

- **Gallu'r DWP**: Byddwn yn creu ein sail sgiliau ein hunain fel ein bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at bartneriaeth busnes – gan wneud y gwaith gorau i gefnogi darparwyr a sicrhau swyddi cyson i'n cwsmeriaid.

- **Profiad y cwsmer**: Bydd profiad y cwsmer yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gomisiynu darpariaeth, sut mae'n cael ei gyflenwi a sut mae'n cael ei wella.

9. Prif nod y Strategaeth yw dod â dull arbennig, hyblyg at y modd y cyflwynir gwasanaeth, yn seiliedig ar wybodaeth arbenigol, sgiliau a'r profiad gan ddefnyddio'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector, gan ddatblygu ar y gyfran sylweddol o gymorth a chefnogaeth sydd ar gael i bobl heb swyddi a gyflenwir yn barod o dan gontract gan ddarparwyr. Dymunwn ddatblygu sail gyson o ddarparwyr y byddwn yn eu hannog i ddefnyddio eu menter ac arloesedd i gyflenwi gwasanaethau, ac a fydd yn cysylltu â'r seilwaith lleol priodol ar gyfer cyflenwi swyddi cyson.

10. I annog ein darparwyr presennol ynghyd ag unrhyw sefydliadau eraill nad ydynt wedi cyflenwi'r gwasanaeth hwn yn flaenorol, byddwn yn:

- cynnal digwyddiadau briffio cyn ac yn ystod yr ymarferiad caffael, yn ymwneud â phrif gontractwyr posibl a sefydliadau llai a allai fod yn dymuno cael eu cynnwys fel isgontractwyr. Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r rhain, gan gynnwys mewn cyhoeddiadau lleol, cenedlaethol ac arbenigol ac ar ein gwefan;

- gweithredu trefniadau i hwyluso cyfnewid gwybodaeth yn barhaus rhwng prif gontractwyr ac isgontractwyr posibl;
- gweithio gyda Swyddfa'r Trydydd Sector a sefydliadau sy'n cynrychioli'r trydydd sector i sicrhau y cynhelir proses gyfathrebu barhaus gyda sefydliadau'r trydydd sector drwy gydol yr ymarferiad caffael;
- sicrhau bod ceiswyr yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r gofynion lleol penodol ym mhob un o ardaloedd y contractau ac y rhoddir cyfleoedd iddynt gysylltu â'r rhanddeiliaid lleol allweddol; a
- darparu cymorth arbenigol i sefydliadau wrth ffurfio mentrau ar y cyd.

11. Bydd angen i'r Adran chwarae rhan weithredol yma i sicrhau y gall partneriaid llai, lleol ffynnu a datblygu, cyn belled ag y bônt yn perfformio'n dda a bod ganddynt y galluoedd y mae arnom eu hangen. Byddwn yn cefnogi darparwyr newydd i gael mynediad i'r farchnad ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau y gall darparwyr sy'n perfformio'n dda yn y trydydd sector barhau i chwarae eu rhan werthfawr o ran darpariaeth.

12. I gael gwybodaeth fanylach am Strategaeth Gomisiynu'r DWP, ewch i: http://www.dwp.gov.uk/publications/dwp/2008/com-strategy/cs-rep-08.pdf

Mae fersiynau Cymraeg, Saesneg ac Easy Read (Saesneg) o'r ddogfen Crynodeb o Ymatebion hon ar gael ar-lein yn

www.dwp.gov.uk/resourcecentre/des-consultation.asp

yn ogystal â dolen i fersiwn gryno Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Mae copïau o'r ddogfen hon ar gael hefyd yn y Gymraeg, Braille, Easy Read, fformatau print bras Cymraeg a Saesneg, ar CD Sain a gellir cael fersiwn cryno yn Iaith Arwyddion Prydain ar DVD am ddim oddi wrth:

Disability Employment Consultation
Disability & Work Division
Department for Work and Pensions
Level W10D
Moorfoot
Sheffield S1 4PQ

Ffôn: 0114 267 7259
Ffacs: 0114 267 7215

Ebost: sheffieldmoorfoot.desconsultation@dwp.gsi.gov.uk

Os oes gennych unrhyw anawsterau gyda'ch lleferydd neu'ch clyw, gallwch wneud galwad drwy TextDirect drwy ddeialu 18001 cyn y rhif ffôn uchod.

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9.00am–4.00pm

Ystyriwn unrhyw geisiadau ychwanegol am fformatau eraill y mae'n bosibl y bydd galw amdanynt.

ISBN: 978-1-84763-513-6

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

6 Tachwedd 2008

www.dwp.gov.uk